# Datblygu'r Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen

Ionawr 2013




Estyn
Rhagoriaeth i bawb - Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

BUDDSODDWYR MEWN POBL | Aur

Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol;
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- colegau arbenigol annibynnol;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith; a
- dysgu yn y sector cyfiawnder.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

© Hawlfraint y Goron 2013:

Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen benodol/cyhoeddiad penodol.

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
neu drwy anfon e-bost at
cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:
www.estyn.gov.uk

# CYNNWYS


5 **Cyflwyniad**
6 **Cefndir**
8 **Prif ganfyddiadau**

11 **Argymhellion**
12 **1 Safonau a chynnydd**
14 Siarad a gwrando
19 Darllen
23 Ysgrifennu

32 **2 Darpariaeth**
32 Addysgu
39 Asesu

43 **3 Arweinyddiaeth a gwella ansawdd**

49 **4 Hyfforddiant a chymorth**
49 Hyfforddiant
51 Cymorth

53 **Atodiad 1: Sail y dystiolaeth**

54 **Atodiad 2: Cwestiynau ar gyfer hunanarfarnu i hybu gwelliant o ran Datblygu'r Gymraeg**
54 Safonau
55 Addysgu ac asesu
56 Cynllunio'r cwricwlwm a'r amgylchedd dysgu
56 Arweinyddiaeth a rheolaeth

57 **Rhestr termau**

59 **Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg**



Dyma ni yn gwisgo make up. Wi wedi cael amser da.

# CYFLWYNIAD

Paratowyd yr adroddiad hwn mewn ymateb i gais am gyngor yn llythyr cylch gwaith blynyddol y Gweinidog i Estyn ar gyfer 2011-2012. Ei ddiben yw:

- adrodd ar weithredu Maes Dysgu Datblygu'r Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen mewn ysgolion a lleoliadau nas cynhelir; ac
- amlygu enghreifftiau o arfer gorau.

Mae'r adroddiad wedi'i fwriadu ar gyfer Llywodraeth Cymru, penaethiaid, arweinwyr a rheolwyr lleoliadau nas cynhelir, ymarferwyr (athrawon, cynorthwywyr cymorth dysgu a staff cymorth eraill) mewn ysgolion a lleoliadau, swyddogion ac ymgynghorwyr awdurdodau lleol, ac awdurdodau esgobaethol eglwysig. Gallai'r adroddiad hefyd fod o ddiddordeb i sefydliadau sy'n hyfforddi ymarferwyr.

Mae'r adroddiad yn defnyddio ystod y dystiolaeth a nodir yn Atodiad 1.

# CEFNDIR

Cyflwynwyd y Cyfnod Sylfaen ar gyfer plant o dan bump oed ym mis Medi 2009 ac ar gyfer plant rhwng pump a chwech oed ym mis Medi 2010. Cyflwynwyd cam olaf y Cyfnod Sylfaen, ar gyfer plant rhwng chwech a saith oed, ym mis Medi 2011.

Datblygu'r Gymraeg yw un o'r saith Maes Dysgu yn Fframwaith y Cyfnod Sylfaen ar gyfer Dysgu Plant. Cyflwynir y Maes Dysgu hwn dim ond mewn ysgolion a lleoliadau lle mae'r Saesneg yn brif gyfrwng cyfathrebu. Mae Fframwaith y Cyfnod Sylfaen ar gyfer Dysgu Plant yn datgan:

> **"Mewn ysgolion a lleoliadau lle mae'r Saesneg yn brif gyfrwng cyfathrebu, dylai sgiliau Cymraeg y plant gael eu datblygu'n raddol trwy gydol y Cyfnod Sylfaen drwy weithredu Maes Dysgu Datblygu'r Gymraeg.**
>
> **Yn ystod y Cyfnod Sylfaen, dylai plant ddysgu defnyddio'r Gymraeg a chyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg hyd eithaf eu gallu. Dylai plant wrando ar y Gymraeg yn cael ei siarad, a dylent ymateb yn briodol mewn sefyllfaoedd cyfarwydd, gan ddefnyddio ystod o batrymau. Dylid eu hannog i gyfleu eu hanghenion trwy gyfrwng y Gymraeg a dylid eu cyflwyno'n gynyddol i'r Gymraeg. Caiff sgiliau eu datblygu trwy gyfathrebu mewn ystod o weithgareddau pleserus ac ymarferol a gaiff eu cynllunio, a thrwy ddefnyddio ystod o symbyliadau sy'n cynyddu gwybodaeth a phrofiadau blaenorol plant ac sy'n adeiladu arnynt, a hynny mewn amgylcheddau dysgu diogel ac ysgogol a geir dan do ac yn yr awyr agored. Dylid defnyddio profiadau llafar y plant i ddatblygu eu sgiliau darllen, a dylid eu hannog i ddewis a defnyddio deunyddiau darllen Cymraeg. Dylent wrando ar ystod o symbyliadau, gan gynnwys deunydd clyweledol a meddalwedd rhyngweithiol TGCh yn Gymraeg. Dylai plant gael ystod o gyfleoedd i fwynhau gwneud marciau a datblygu eu sgiliau ysgrifennu Cymraeg. Bydd sgiliau iaith a ddysgir mewn un iaith yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu gwybodaeth a sgiliau mewn iaith arall.[1]"**

[1] Fframwaith y Cyfnod Sylfaen ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 Oed yng Nghymru 2008, Tudalen 27

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru ei gweledigaeth ar gyfer gweld y Gymraeg yn ffynnu yng Nghymru yn y ddogfen 'Iaith fyw: iaith byw' yn 2012. Mae'r 'Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg' a gyhoeddwyd yn 2010 yn cefnogi'r weledigaeth hon. Mae'n nodi:

> **"Nod strategol 3: Sicrhau bod pob dysgwr yn datblygu ei sgiliau iaith yn y Gymraeg i'w botensial llawn ac annog dilyniant ieithyddol cadarn o un cyfnod addysg a hyfforddiant i'r nesaf.**[2]
>
> **Nod ychwanegol y Strategaeth hon yw sicrhau bod pob dysgwr a myfyriwr mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg yn manteisio ar gyfleoedd i ddatblygu sgiliau iaith sy'n cyfoethogi eu profiad o fyw mewn gwlad ddwyieithog."**[3]

Mae hefyd yn datgan:

> **"Mae'r Strategaeth hefyd yn darparu ar gyfer y posibilrwydd y bydd rhai dysgwyr yn cael mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfnod ar ôl tair oed. Gall hyn ddigwydd drwy bwyntiau mynediad hwyrach (cyfleoedd trochi i hwyrddyfodiaid). Mewn achosion eraill, mae'n bosibl bydd profiadau cychwynnol o ddysgu'r Gymraeg drwy'r Cyfnod Sylfaen, dros amser, yn rhoi'r sail a'r ysgogiad i blant drosglwyddo i'r sector cyfrwng Cymraeg cyn iddynt gyrraedd saith oed."**[4]

Er mwyn sicrhau y gellir trosglwyddo i'r sector cyfrwng Cymraeg cyn saith oed, mae angen i ysgolion a lleoliadau addysgu'r Gymraeg i safon uchel drwy gydol y Cyfnod Sylfaen ac olrhain cynnydd disgyblion yn gywir.

---

[2] Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, Ebrill 2010, Tudalen 15

[3] Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, Ebrill 2010, Tudalen 9

[4] Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, Ebrill 2010, Tudalen 8

# PRIF GANFYDDIADAU

Yn y mwyafrif o ysgolion Saesneg a arolygwyd yn ystod 2010-2012, mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd boddhaol o ran siarad Cymraeg a gwrando ar Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen, yn enwedig yn ystod sesiynau grŵp cyfan. Mae gan blant agwedd gadarnhaol at ddysgu Cymraeg. Mae eu medrau siarad a gwrando'n datblygu'n dda ond nid yw medrau darllen ac ysgrifennu wedi'u datblygu digon yn y Cyfnod Sylfaen. Mewn un o bob deg ysgol, mae plant yn gwneud cynnydd ardderchog wrth gaffael medrau Cymraeg. Yn yr ychydig ysgolion hyn, mae gan bron yr holl blant ddealltwriaeth dda o'u gwaith Cymraeg ar draws y cwricwlwm. Maent yn defnyddio ystod o eiriau a phatrymau brawddegau yn gywir, ac erbyn diwedd cyfnod allweddol 2 gallant ddarllen yn gywir a chyda mynegiant.

Er bod safonau hefyd wedi gwella'n gyffredinol mewn lleoliadau Saesneg nas cynhelir yn ystod 2010-2012, mae cynnydd plant yn y Gymraeg yn achos pryder mewn mwy na thraean o'r lleoliadau hyn. Yn y lleoliadau hyn, yn gyffredinol, mae plant yn dangos diffyg hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i sesiynau grŵp cyfan byr, fel cyfnodau cofrestru neu sesiynau canu. Nid ydynt yn defnyddio'r Gymraeg wrth chwarae neu ddysgu heb gael eu hannog gan oedolion.

Mae Datblygu'r Gymraeg yn dda yn y rhan fwyaf o'r ysgolion a'r lleoliadau yr ymwelwyd â nhw yn ystod yr arolwg hwn. Yn y rhan fwyaf o'r ysgolion a'r lleoliadau hyn, mae'r Gymraeg yn rhan annatod o'r drefn ddyddiol. Mae bron pob plentyn yn mwynhau dysgu Cymraeg ac yn dysgu defnyddio amrywiaeth o eiriau ac ymadroddion Cymraeg â'i gilydd. Mae'r ysgolion a'r lleoliadau mwyaf effeithiol yn datblygu Cymraeg plant trwy wella eu hyder, eu hunan-gred a'u hagweddau at ddysgu Cymraeg. Mae ymarferwyr (athrawon a staff cymorth eraill) yn cynllunio ystod o gyfleoedd i bob plentyn ddysgu Cymraeg yn y dosbarth a'r tu allan. Mae'r gwaith mwyaf effeithiol yn achub ar gyfleoedd i gyflwyno Cymraeg yn chwe maes dysgu arall cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen.

Mae plant yn gwneud y cynnydd gorau wrth siarad Cymraeg a gwrando ar Gymraeg. Yn yr enghreifftiau gorau, maent yn gofyn ac ateb cwestiynau syml yn gywir ac yn hyderus, ond nid ydynt yn defnyddio'r Gymraeg yn aml wrth chwarae y tu allan. Yn gyffredinol, mae plant yn gwneud llai o gynnydd wrth ddarllen ac ysgrifennu Cymraeg. Mae hyn yn rhannol o ganlyniad i'r pwyslais priodol ar ddatblygu medrau llafar da wrth ddysgu'r Gymraeg yn gynnar. Mae lleiafrif o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn cyflwyno gweithgareddau darllen ac ysgrifennu Cymraeg a gynlluniwyd yn systematig, sy'n aml yn adlewyrchu cynnydd y plant wrth ddarllen ac ysgrifennu Saesneg. Pan fo plant yn ysgrifennu am 'resymau go iawn', fel gwneud rhestr siopa cyn mynd i'r siopau neu wahodd ffrindiau i'w parti, maent yn dangos llawer o ddiddordeb ac yn gwneud cynnydd da wrth ysgrifennu Cymraeg.

Yn y rhan fwyaf o ysgolion a arolygwyd yn 2010-2012, mae'r ddarpariaeth ar gyfer Cymraeg ail iaith yn y Cyfnod Sylfaen yn dda. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o ysgolion nid yw'r staff yn neilltuo digon o amser i addysgu Cymraeg. Mewn rhai o'r ysgolion a'r lleoliadau yr ymwelwyd â nhw, nid yw'r staff yn neilltuo digon o amser addysgu uniongyrchol i gyflwyno maes Datblygu'r Gymraeg yn effeithiol. Nid yw ymarferwyr yn ymarfer ac ailadrodd geiriau Cymraeg newydd yn rheolaidd nac yn cynnig digon o gyfleoedd i blant ymarfer eu Cymraeg. Mewn sesiynau lle mae ansawdd yr addysgu Cymraeg yn rhagorol, mae'r athrawon yn tanio dychymyg y plant, mae'r gweithgareddau'n ysgogol, ac mae'r plant yn ymateb yn frwdfrydig, yn ymestyn eu geirfa ac yn dod yn fwy hyderus wrth ddefnyddio'r Gymraeg.

Yn gyffredinol, pan fo'r ymarferwyr eu hunain yn rhugl yn y Gymraeg, mae'r plant yn gwneud cynnydd gwell wrth ddysgu Cymraeg. Mae'r ymarferwyr hyn yn defnyddio'r Gymraeg yn gyson ar draws pob maes dysgu. Pan na cheir unrhyw ymarferwyr sy'n gallu siarad Cymraeg yn hyderus mewn ysgol neu leoliad, mae'r defnydd o'r Gymraeg gan y staff yn fwy cyfyngedig fel arfer. Mae hyn yn golygu bod y plant yn clywed llai o Gymraeg ac yn cael llai o gyfle i'w hymarfer. Pan geir bylchau yng ngwybodaeth ymarferwyr, yn enwedig o ran gramadeg, goslef ac ynganiad Cymraeg, gall plant ddysgu siarad neu ynganu'n anghywir. Mewn rhai achosion, ni all yr ymarferwyr barhau i ddefnyddio'r Gymraeg yn ddigon hir, ac ychydig iawn o Gymraeg achlysurol[5] maen nhw'n ei ddefnyddio gyda'r plant. Ychydig iawn o ymarferwyr sy'n gallu siarad Cymraeg yn rhugl a geir yn y rhan fwyaf o leoliadau ac ysgolion, ac mae llawer ohonynt yn defnyddio rhaglenni teledu neu DVDau Cymraeg i geisio gwneud iawn am hyn, fel bod y plant yn gallu clywed mwy o Gymraeg llafar. Fodd bynnag, nid yw'r dull hwn yn sicrhau cynnydd cynaliadwy mewn dysgu.

Nid yw'n ofynnol i ysgolion gofnodi cynnydd plant unigol o ran Datblygu'r Gymraeg ac nid oes data asesu ffurfiol ar gael ar lefel ysgol, awdurdod lleol na chenedlaethol. Mae hyn yn golygu nad oes modd olrhain cynnydd plant o ran y Gymraeg o ddechrau eu haddysg hyd at ddiwedd y Cyfnod Sylfaen ac ymlaen i gyfnod allweddol 2.

[5] Mae Cymraeg achlysurol yn cyfeirio at ryngweithio rhwng oedolion a phlant sy'n digwydd yn naturiol mewn sefyllfa heb ei strwythuro lle mae oedolion yn trosglwyddo gwybodaeth newydd neu'n rhoi cyfle i blant ymarfer medr cyfathrebu.

Mae ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn dda o leiaf yn y rhan fwyaf o'r lleoliadau a'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw. Mae arweinwyr effeithiol yn gweithredu maes Datblygu'r Gymraeg yn drylwyr yn y Cyfnod Sylfaen. Mae lleiafrif o'r ysgolion a'r lleoliadau yr ymwelwyd â nhw yn defnyddio dull cyson o addysgu'r Gymraeg. Mae'r ymarferwyr yn ymroi'n llwyr i sicrhau bod pob plentyn yn dysgu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg yn hyderus.

Nid yw arweinwyr yn derbyn digon o gymorth a hyfforddiant ar sut i werthuso effeithiolrwydd addysgu a dysgu ym maes Datblygu'r Gymraeg. Ychydig iawn o awdurdodau lleol sy'n cynnig hyfforddiant i benaethiaid ac uwch arweinwyr ar werthuso safonau a darpariaeth o ran y Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen.

Pan fo ymarferwyr mewn ysgolion yn derbyn hyfforddiant a chymorth rheolaidd, maent yn fwy hyderus wrth addysgu'r Gymraeg. Fodd bynnag, ceir amrywiad eang o ran faint o hyfforddiant sydd ar gael i ymarferwyr mewn gwahanol awdurdodau. Yn yr achosion gorau, mae ymarferwyr yn derbyn hyfforddiant diweddaru a chymorth rheolaidd, ond mae llawer sydd wedi derbyn hyfforddiant cyfyngedig yn unig i ddatblygu eu Cymraeg yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Prin iawn yw'r cyfleoedd hyfforddi yn y Gymraeg sydd ar gael i ymarferwyr yn y rhan fwyaf o leoliadau, yn aml oherwydd anawsterau yn ymwneud â rhyddhau staff i ddilyn hyfforddiant a chost talu staff i ddilyn hyfforddiant y tu allan i'w horiau gwaith arferol. Nid yw pob awdurdod lleol yn rhannu arfer dda ym maes Datblygu'r Gymraeg yn ddigon effeithiol gydag ysgolion a lleoliadau.

# ARGYMHELLION

**Dylai ysgolion a lleoliadau:**

**A1** sicrhau bod digon o amser yn cael ei neilltuo i addysgu'r Gymraeg yn uniongyrchol;

**A2** cynllunio cyfleoedd da i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg mewn meysydd dysgu eraill ac mewn gweithgareddau awyr agored;

**A3** cynyddu lefel y medrau sydd eu hangen i ddatblygu Cymraeg ysgrifenedig disgyblion;

**A4** monitro darpariaeth a chynnydd o ran Datblygu'r Gymraeg; a

**A5** darparu cyfleoedd i ymarferwyr wella eu medrau Cymraeg a'u medrau addysgu iaith.

**Dylai awdurdodau lleol:**

**A6** ddarparu cymorth a hyfforddiant mewn Datblygu'r Gymraeg i benaethiaid, arweinwyr ac ymarferwyr arweiniol y Cyfnod Sylfaen;

**A7** sicrhau bod mwy o gymorth a hyfforddiant yn y Gymraeg ar gael i ymarferwyr, yn enwedig mewn lleoliadau nas cynhelir; a

**A8** rhannu arfer dda o ran Datblygu'r Gymraeg.

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

**A9** adolygu pa un a ddylai Dangosydd Deilliannau'r Cyfnod Sylfaen fesur cynnydd plant o ran Datblygu'r Gymraeg;

**A10** datblygu hyfforddiant iaith ac addysgeg ychwanegol yn y Gymraeg i ymarferwyr mewn lleoliadau nas cynhelir; a

**A11** darparu mwy o ddeunyddiau enghreifftiol o arfer dda ym maes Datblygu'r Gymraeg.

# 1 SAFONAU A CHYNNYDD

Mae'n rhy gynnar o hyd yn y broses o weithredu maes Datblygu'r Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen i allu barnu ei effaith ar safonau yn llawn. Nid oes data asesu mesuradwy ar gael i nodi ei effeithiau. Mae'r canfyddiadau ar gyfer yr arolwg hwn wedi'u seilio ar adroddiadau arolygu ac ymweliadau a wnaed gan Arolygwyr EM ag ysgolion a lleoliadau.

Yn ystod 2011-2012, arolygodd Estyn 218 o ysgolion cynradd, y mae bron i ddwy ran o dair ohonynt yn rhai Saesneg. Yn y rhan fwyaf o ysgolion Saesneg, mae medrau Cymraeg ail iaith y disgyblion yn dda. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn ystod sesiynau grŵp cyfan ac mae ganddynt agwedd gadarnhaol tuag at siarad Cymraeg. Mae safonau yng nghyfnod allweddol 2 yn gwella'n araf ond, mewn lleiafrif o ysgolion, nid yw'r disgyblion yn parhau i ddatblygu eu medrau Cymraeg yn ddigon da. Yn aml, yn yr ysgolion hyn, nid yw'r athrawon yn neilltuo digon o amser i gyflwyno Cymraeg ail iaith, ac mae llawer ohonynt yn dangos diffyg hyder mewn addysgu Cymraeg, yn enwedig i ddisgyblion hŷn yng nghyfnod allweddol 2. Mewn llai nag un ym mhob deg ysgol, mae disgyblion yn gwneud cynnydd ardderchog o ran caffael medrau Cymraeg. Yn y nifer fach iawn o ysgolion hyn, mae gan bron pob disgybl ddealltwriaeth dda o'i waith Cymraeg ar draws y cwricwlwm. Maent yn defnyddio ystod eang o batrymau brawddegau yn gywir ac yn effeithiol ac, erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae bron i bob disgybl yn gallu darllen yn gywir a chyda mynegiant.

Arolygodd Estyn 146 o leoliadau nas cynhelir yn ystod 2011-2012 hefyd, y mae ychydig dros hanner ohonynt yn lleoliadau Saesneg. Er bod safonau wedi gwella yn gyffredinol, ceir pryderon o hyd ynglŷn â chynnydd plant yn y Gymraeg mewn mwy na thraean o leoliadau Saesneg nas cynhelir. Yn gyffredinol, mae plant yn dangos diffyg hyder o ran defnyddio'r Gymraeg y tu allan i sesiynau grŵp cyfan byr, fel cyfnodau cofrestru neu sesiynau canu. Nid ydynt yn defnyddio'r Gymraeg wrth chwarae a dysgu heb gael eu hannog gan oedolion.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o blant yn cyflawni safonau uwch mewn siarad a gwrando ar Gymraeg nac ydynt mewn darllen neu ysgrifennu. Y rheswm am hyn yw bod dysgu darllen ac ysgrifennu yn dibynnu ar eu medrau llafar. Fel arfer, mae plant yn datblygu medrau darllen yn fwy buan a chyflym na'u medrau ysgrifennu.

Pan fo plant yn ysgrifennu am 'resymau go iawn', fel gwneud rhestr siopa cyn mynd i'r siopau neu wahodd ffrindiau i'w parti, maent yn dangos llawer o ddiddordeb ac yn gwneud cynnydd da wrth ysgrifennu Cymraeg.

Nid yw dysgu plant yn cael cymaint o fudd ag y dylai o addysgu Cymraeg yn uniongyrchol[6]. Yn ogystal, ni wneir digon o ddefnydd o ddarpariaeth barhaus ac estynedig i gyfnerthu ac ymestyn dysgu plant. Mae diffyg strwythur eglur mewn cynlluniau ymarferwyr yn rhwystro cynnydd plant yn yr ysgolion a'r lleoliadau hyn.

Mewn rhai ysgolion a lleoliadau, mae diffyg medrau Cymraeg yr ymarferwyr yn rhwystro dysgu'r plant. Yn arbennig, mae safonau Cymraeg llafar y plant yn is nag y mae angen iddynt fod. Nid yw'r ymarferwyr wedi cynnal digon o addysgu Cymraeg uniongyrchol nac wedi rhoi digon o gyfleoedd i'r plant ddatblygu eu medrau iaith ar draws y cwricwlwm.

[6] Dull addysgu systematig lle mae'r ymarferydd yn arwain y plant mewn gwers gam wrth gam a strwythurwyd yn ofalus. Mae'r rhestr termau, ar ddiwedd yr adroddiad hwn, yn rhoi esboniad manwl o'r term hwn.

# SIARAD A GWRANDO

Mae bron i bob plentyn yn dangos mwynhad ac ymrwymiad amlwg ac yn cael hwyl wrth ddysgu Cymraeg mewn ysgolion a lleoliadau. Mae cyflawniad y rhan fwyaf o blant mewn gwrando a siarad yn gryfach nag mewn darllen ac ysgrifennu. Mae hyn yn rhannol o ganlyniad i'r pwyslais cryf ar ddatblygu medrau llafar da pan fo plant yn dechrau dysgu Cymraeg. Yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o blant yn gwrando'n dda ac yn ymateb yn frwdfrydig ymron pob sesiwn a arsylwyd yn ystod yr arolwg hwn. Mae'r rhan fwyaf o blant yn gofyn ac ateb cwestiynau syml yn gywir, ond nid ydynt yn aml yn defnyddio'r Gymraeg yn ddigymell wrth chwarae.

Yn y sesiynau gorau a arsylwyd, mae bron i bob plentyn yn barod i siarad ac yn gwneud hynny'n hyderus, ac maent yn defnyddio goslef ac ynganiad Cymraeg da. Maent yn deall ei gilydd yn siarad Cymraeg ac mae'r rhan fwyaf yn siarad gyda lefel dderbyniol o gywirdeb. Mae hyn yn aml o ganlyniad i gymorth da a roddir i'r plant gan ymarferwyr sydd naill ai'n siaradwyr Cymraeg neu'n ddysgwyr Cymraeg hyderus. Pan fo medrau siarad a gwrando'n cael eu haddysgu'n effeithiol, mae'r plant yn cael cyfle i siarad mewn gweithgareddau dosbarth ac mewn grwpiau, ac yn cael cyfleoedd chwarae rôl i ymarfer eu medrau llafar. Maent yn awyddus i siarad oherwydd bod ganddynt rywbeth i'w ddweud. Mewn rhai sesiynau, mae plant yn dangos diffyg hyder i siarad Cymraeg ac maent yn amharod i ddefnyddio mwy nag ychydig ymadroddion Cymraeg syml.

**Nodir isod rai enghreifftiau o sut mae ymarferwyr wedi datblygu medrau siarad Cymraeg plant yn llwyddiannus. Mae'r astudiaethau achos yn dangos nodweddion arfer dda o ysgolion neu leoliadau unigol neu gyfuniad o'r arfer dda a welwyd mewn sawl ysgol. Newidiwyd enwau'r disgyblion yn yr enghreifftiau hyn fel nad oes modd eu hadnabod.**

## Chwarae rôl a defnyddio pypedau

Mae llawer o ymarferwyr yn gwneud defnydd da o chwarae rôl i gyfnerthu dysgu plant ac yn ei ddefnyddio'n effeithiol mewn gwaith grŵp. Yn aml, mae ymarferwyr yn defnyddio'r ardal chwarae rôl yn yr ystafell ddosbarth i alluogi plant i ymarfer ymadroddion a gyflwynwyd yn ystod sesiwn dosbarth cyfan mewn amgylchedd hwyliog.

Mae llawer o ymarferwyr yn defnyddio pypedau'n effeithiol yn eu hystafelloedd dosbarth. Mae defnyddio pypedau yn cynyddu gallu plant i ganolbwyntio a defnyddio eu dychymyg ac yn annog defnydd mwy digymell o'r Gymraeg. Yn yr enghreifftiau gorau, mae pypedau'n cynnig cyfleoedd ar gyfer gwaith creadigol mewn parau ac yn rhoi'r hyder i blant 'roi cynnig' ar ddefnyddio'r Gymraeg. Mewn rhai dosbarthiadau, mae ymarferwyr yn gwneud defnydd effeithiol o bypedau masnachol o DVDau Cymraeg adnabyddus y Cyfnod Sylfaen i gyfnerthu ymadroddion Cymraeg a gyflwynwyd ar y DVD. Yn aml, mae plant swil yn dod yn fwy hyderus a llafar pan roddir cyfle iddynt ryngweithio â phyped, yn hytrach nag unigolyn arall, fel bod hyd yn oed y plentyn mwyaf swil yn fodlon siarad Cymraeg.

## SIOPA YN Y SIOP FFRWYTHAU

Mae siop ffrwythau'r dosbarth yn darparu ffordd ddefnyddiol o gryfhau medrau siarad a gwrando plant yn ogystal â'u geirfa. Roedd un grŵp o blant Blwyddyn 1 yn siop ffrwythau'r dosbarth yn prynu a gwerthu ffrwythau yn Gymraeg.

**Plentyn 2:** Bore da, ga i helpu chi?
**Plentyn 1:** Ga i bump oren, os gwelwch yn dda?
**Plentyn 2:** Dyma ti. Un, dau, tri, pedwar, pump oren. Deg ceiniog, os gwelwch yn dda.
**Plentyn 1:** Dyma ti. Da boch chi.

**Plentyn 2:** Bore da, ga i helpu chi?
**Plentyn 3:** Faint ydy'r afalau, os gwelwch yn dda?
**Plentyn 2:** Pump ceiniog.

**Plentyn 1:** Ga i un afal, os gwelwch yn dda?
**Plentyn 2:** Dyma ti!
**Plentyn 1:** Diolch yn fawr.

Roedd y sesiwn chwarae rôl hon yn galluogi'r plant i ymarfer cyfarchion, gofyn cwestiynau syml a thrafod cost ffrwythau unigol. Roedd y plant hefyd yn cael cyfle i gyfrif arian yn Gymraeg.

## Y DYN TYWYDD AR Y TELEDU

Mewn un dosbarth Blwyddyn 1, chwaraeodd un plentyn rôl y dyn tywydd o flaen y dosbarth. Roedd gan y bachgen fap o Gymru y tu ôl iddo.

**Plentyn 1:** Bore da.
Nawr am y tywydd i Gymru.
Mae hi'n heulog ac mae hi'n wyntog,
Ond dyw hi ddim yn bwrw glaw.
Mae'n wlyb ac mae'n bwrw eira yma. (mae'n pwyntio at ogledd Cymru ar y map)
Mae hi'n gymylog yma. (mae'n pwyntio at orllewin Cymru ar y map)
Ond mae hi'n heulog yng Nghasnewydd. (mae'n pwyntio at Gasnewydd ar y map)
Da boch chi.

Roedd y sesiwn chwarae rôl hon yn dangos bod y bachgen yn gwybod gwahanol fathau o dywydd ac y gallai ddisgrifio amrywiaeth o amodau tywydd o amgylch Cymru. Defnyddiodd frawddeg estynedig hefyd gyda dau ymadrodd cadarnhaol ac un ymadrodd negyddol. Defnyddiodd y treiglad trwynol 'yng Nghasnewydd' yn gywir.

## Rhigymau a chaneuon Cymraeg

Mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr mewn lleoliadau ac ysgolion yn cynnig cyfleoedd da i'r plant ganu caneuon Cymraeg yn eu hystafelloedd dosbarth. Yn y rhan fwyaf o ysgolion a lleoliadau, mae'r plant yn gwybod amrywiaeth dda o ganeuon Cymraeg, ac yn eu canu'n rheolaidd. Mae'r plant mewn rhai lleoliadau ac ysgolion hefyd yn dweud neu'n canu gweddi yn Gymraeg cyn bwyta eu byrbryd. Mae ailadrodd caneuon yn helpu i gyfnerthu cynefindra â geiriau ac ymadroddion y gellir eu defnyddio mewn cyd-destunau eraill.

Mae rhigymau a chaneuon Cymraeg yn ddulliau dysgu defnyddiol gan fod llawer o'r rhigymau a'r caneuon yr ydym yn eu dysgu yn ystod ein plentyndod yn aml yn aros gyda ni am weddill ein hoes. Mae'r rhan fwyaf o blant yn mwynhau patrymau a rhythmau caneuon a rhigymau Cymraeg ac yn aml maen nhw'n hymian y dôn ac yn canu'r geiriau gartref neu wrth chwarae. Mae hyn yn rhoi llawer o gyfleoedd i blant ddefnyddio geiriau ac ymadroddion Cymraeg. Mae rhai caneuon hefyd yn cyflwyno plant i ymadroddion Cymraeg mwy cymhleth.

Mae cyflwyno emynau, caneuon a rhigymau Cymraeg yn helpu i ddatblygu cof gweithio plant ifanc[7], sy'n elfen hanfodol arall o ddysgu iaith. Mae plant sy'n gweld yr emynau Cymraeg ar y bwrdd gwyn rhyngweithiol yn ystod y gwasanaeth yn cael cyfle da i edrych ar a defnyddio testunau Cymraeg yn rheolaidd. Mae dysgu emynau a chaneuon Cymraeg hefyd yn ffordd dda o gyflwyno plant i agweddau ar ddiwylliant Cymreig.

## Gemau Cymraeg

Yn y rhan fwyaf o ysgolion a lleoliadau, mae ymarferwyr yn aml yn defnyddio amrywiaeth o gemau gyda grwpiau o blant i gyfnerthu geiriau ac ymadroddion Cymraeg a gyflwynwyd yn ystod sesiwn addysgu dosbarth cyfan. Ailadroddir gemau Cymraeg yn aml fel bod y plant yn dod yn gyfarwydd â'r rheolau'n gyflym. Pan fo'r plant yn hyderus eu bod yn gwybod beth i'w wneud, chwaraeir y gemau hyn yn annibynnol fel gweithgareddau cyfnerthu yn ystod yr wythnos. Caiff yr eirfa ei newid yn rheolaidd i weddu i bwnc y dosbarth.

[7] Mae'r term 'cof gweithio' yn cyfeirio at y gallu i gofio a thrin gwybodaeth ar yr un pryd.

Mae gemau Cymraeg hefyd yn helpu plant i weithio gyda'i gilydd mewn gwahanol ffyrdd a datblygu medrau cymdeithasol pwysig, fel cymryd tro. Yn aml, gall yr ysgogiad i ennill fod yn ffordd werthfawr o alluogi plant llai hyderus i gymryd rhan.

## GEMAU CYFRIF CYMRAEG I DDATBLYGU MEDRAU RHIFEDD CYNNAR

Mewn dosbarth y blynyddoedd cynnar, mae'r plant yn gweithio gyda'i gilydd mewn grŵp o amgylch bwrdd gyda'u hathro ar gêm fathemateg yn ymwneud â chyfrif.

**Athro:** Pwy sy' nesa?
**Plentyn 1:** James sy nesa
**Plentyn 2:** Fi sydd nesaf
**Athro:** Sawl un?
**Plentyn 3:** Pedwar
**Athro:** Rhifwch gyda fi. Un, dau, tri, pedwar.

Yna mae'r plant yn cyfrif gyda'r athro.

Mae bron pob un o'r plant yn hyderus wrth ddefnyddio eu medrau Cymraeg i gyfrif ac mae hyn yn ei dro yn helpu i gyfnerthu eu medrau rhifedd. Mae bron pob un ohonynt yn cyflawni safonau da.

# DARLLEN

Yn gyffredinol, nid yw cynnydd y rhan fwyaf o blant mewn darllen Cymraeg cystal â'u medrau siarad. Yn ystod ein hymweliadau ag ysgolion, gwelsom rai enghreifftiau da lle mae ysgolion yn rhoi pwyslais arbennig ar ddarllen Cymraeg ac yn defnyddio adnoddau fel 'llyfrau mawr', darllenwyr, llyfrau a wnaed â llaw a byrddau gwyn rhyngweithiol i helpu plant i ddarllen Cymraeg. Fodd bynnag, nid yw ymarferwyr bob amser yn datblygu medrau darllen plant yn systematig o gyfnod cynnar. Yn aml, mae ysgolion yn amharod i gyflwyno darllen Cymraeg hyd nes bod plant yn meistroli mecaneg darllen Saesneg.

Yn y lleoliadau a'r ysgolion mwyaf effeithiol, mae ymarferwyr yn cynnig ystod o weithgareddau cyn-darllen i'r plant yn Gymraeg er mwyn sicrhau eu bod yn dod yn gyfarwydd ag amrywiaeth eang o brint, er enghraifft sylwi ar labeli a geiriau Cymraeg ar arddangosiadau. Mae ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd i blant glywed a gweld testunau Cymraeg pan fyddant yn darllen storïau syml a deunyddiau ffeithiol diddorol yn Gymraeg. Ymhell cyn i blant allu darllen Cymraeg, maent yn deall bod print yn cynnwys neges y gellir ei darllen yn annibynnol, er enghraifft trwy ddilyn llyfrau stori deniadol.

Yn y sesiynau gorau, mae ymarferwyr yn addysgu sut mae llythrennau'r wyddor, yn unigol neu mewn cyfuniad, yn cynrychioli seiniau'r iaith lafar. Yn aml, mae ymarferwyr sy'n gallu siarad Cymraeg ac ymarferwyr sy'n ddysgwyr Cymraeg hyderus yn dangos i'r plant sut i gyfuno'r seiniau hyn i ddarllen geiriau, a sut i ddatgymalu'r seiniau mewn geiriau i sillafu geiriau Cymraeg yn gywir. Yn y sesiynau gorau a arsylwyd, mae ymarferwyr yn addysgu darllen Cymraeg yn systematig, yn rheolaidd ac yn eglur.

Mae ymarferwyr yn hybu medrau darllen Cymraeg plant yn y Cyfnod Sylfaen trwy sicrhau bod y deunydd darllen yn briodol. Maent yn helpu darllenwyr Cymraeg dechreuol i ddewis testunau sydd o fewn eu gallu i ddarllen Cymraeg. Os yw testun yn cynnwys mwy nag un neu ddau air anghyfarwydd ar bob tudalen, gallai hyn wneud y testun yn rhy anodd i'w ddeall a pheri i'r darllenwr dechreuol fod yn amharod i'w ddarllen ar ei ben ei hun. Mae llwyddiant darllen cynnar yn Gymraeg yn dibynnu i raddau helaeth ar ddenu plant i ddarllen, ac mae'n helpu os gallant ddewis yr hyn maen nhw am ei ddarllen. Pan fo ymarferwyr yn cynnig amrywiaeth o ddeunydd darllen ar ystod eang o destunau ar y lefel briodol i'r plentyn, mae'r rhan fwyaf yn mwynhau darllen yn Gymraeg.

**Nodir isod rai enghreifftiau o sut mae ymarferwyr wedi datblygu medrau darllen Cymraeg plant yn llwyddiannus. Mae'r astudiaethau achos yn dangos nodweddion arfer dda o ysgolion neu leoliadau unigol neu gyfuniad o'r arfer dda a welwyd mewn sawl ysgol.**

## DEFNYDDIO LLYFR MAWR CYMRAEG FEL YSGOGIAD I DDATBLYGU MEDRAU LLAFAR

Defnyddiodd un athro Blwyddyn 2 mewn ysgol fabanod 'lyfr mawr' i adrodd y stori Gymraeg 'Parti Pen-blwydd Wini'. Defnyddiwyd y stori hon fel ysgogiad ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau llafar.

I ddechrau'r gweithgaredd, darllenodd y dosbarth cyfan y llyfr gyda'i gilydd, gan ailadrodd geiriau ac ymadroddion a ddangoswyd ar y bwrdd gwyn rhyngweithiol. Roedd bron pob disgybl yn cymryd rhan mewn darllen y stori. Roedd defnydd yr athro o ystumiau, newid llais a goslef yn helpu'r plant i adnabod y cymeriadau yn y stori. Roedd bron pob un o'r plant yn dynwared lleisiau ac ystumiau'r cymeriadau'n dda. Roeddent yn defnyddio geiriau ac ymadroddion newydd yn frwdfrydig yn eu gwaith llafar.

Cymerodd y ddau gynorthwy-ydd dysgu ran amlwg yn y gweithgaredd hwn. Gwisgodd un cynorthwy-ydd fel 'gwrach' a daeth i mewn yn ddramatig hanner ffordd drwy'r sesiwn. Roedd hyn wedi helpu i ennyn diddordeb y plant yn y stori a'u galluogi i gymryd rhan mewn sesiwn holi ac ateb:

**Plentyn:** Beth wyt ti eisiau Wini?
**Cynorthwy-ydd:** Dw i eisiau trefnu parti pen-blwydd.

Ar ôl cael y cyfle i ofyn cwestiynau, gallai'r plant arwain gwaith pâr a grŵp, yn hytrach nag ymateb yn unig i gwestiynau a ofynnwyd gan ymarferwyr neu gynorthwywyr cymorth dysgu. Roedd y cyd-destun hwn yn galluogi'r plant i ymarfer yr eirfa newydd yr oeddent wedi'i dysgu yn ystod y sesiwn a chyfnerthu geiriau ac ymadroddion eraill yr oeddent wedi'u dysgu'n flaenorol.

Cynigiodd yr athro a'r cynorthwywyr cymorth dysgu ystod o weithgareddau dilynol diddorol i'r plant. Roedd y gweithgareddau hyn yn briodol, wedi'u gwahaniaethu'n dda ac wedi'u seilio ar wybodaeth a dealltwriaeth y plant o'r stori. Yn y gweithgareddau uwch, cafodd un grŵp sesiwn chwarae rôl yn siop y dosbarth. Roedd yn rhaid i'r grŵp hwn brynu bwyd parti ar gyfer y parti. Roedd yn rhaid i blant unigol brynu cynhwysion penodol.

**Plentyn 1:** Ga i greision, os gwelwch yn dda?
**Plentyn 2:** Cewch
**Plentyn 1:** Faint ydy'r creision, os gwelwch yn dda?
**Plentyn 2:** Deg ceiniog
**Plentyn 1:** Un, dau, tri, pedwar, pump, chwech, saith, wyth, naw, deg ceiniog.
Dyma ti!
**Plentyn 2:** Diolch yn fawr.

Roedd y gweithgaredd hwn hefyd yn cynnwys cyfrif arian yn Gymraeg, defnyddio geiriau ac ymadroddion a oedd wedi'u hymarfer yn dda, a gofyn ac ateb cwestiynau.

Penderfynodd grŵp arall o blant i bobi cacen pen-blwydd ar gyfer Wini. Roedd pob aelod o'r grŵp hwn yn cymryd rhan mewn mesur cynhwysion, gyda chymorth cynorthwy-ydd cymorth dysgu. Roedd yn rhaid i bob un o'r plant ddarllen y rysáit a dilyn y cyfarwyddiadau yn Gymraeg.

Ysgrifennodd trydydd grŵp wahoddiad syml i barti Wini.

Defnyddiodd yr athro dosbarth ymadroddion Cymraeg yn gyson drwy gydol y sesiwn i sicrhau bod y plant yn deall yr holl eiriau ac ymadroddion Cymraeg a gyflwynwyd.

Wrth i blant ddysgu meistroli medrau darllen cynnar yn Gymraeg, mae'r ymarferwyr gorau yn rhoi deunydd darllen i blant sydd o fewn eu cyrraedd yn rhwydd. Yn aml, mae llyfrau darllen Cymraeg cynnar wedi'u cynllunio i gynnwys testun rheolaidd, y gall plant ei ddehongli gan ddefnyddio'r medrau darllen y maent eisoes wedi'u sicrhau yn eu hiaith gyntaf. Mae hyn yn eu galluogi i ennill hyder trwy ddarllen llyfr cyfan, gan fod llyfrau a ysgrifennwyd ar gyfer dysgwyr Cymraeg yn y cyfnod hwn fel arfer yn fyr ac yn cynnwys ymadroddion a geirfa ailadroddus. Yn aml, mae darllen llyfrau o'r fath yn Gymraeg yn helpu plant i ddatblygu hyder ac awydd i ddarllen yn fwy eang.

Mewn rhai ysgolion a lleoliadau, nid yw ymarferwyr yn rhoi digon o gyfle i blant ddarllen yn Gymraeg mewn amrywiaeth ddigon eang o sefyllfaoedd.

## DATBLYGU MEDRAU LLAFAR A DARLLEN YNG NGWASANAETH YR YSGOL

Mewn un ysgol fabanod, cynhelir gwasanaeth ysgol gyfan bob wythnos trwy gyfrwng y Gymraeg. Un wythnos, wrth i'r plant fynd i mewn i'r neuadd, roedd cerddoriaeth Gymreig draddodiadol yn chwarae yn y cefndir. Dechreuodd y gwasanaeth gydag un plentyn yn cyflwyno emyn Cymraeg. Canodd yr ysgol gyfan yr emyn hwn yn frwdfrydig. Yna cyflwynodd y pennaeth y dosbarth Blwyddyn 1 a oedd wedi trefnu'r gwasanaeth hwn. Esboniodd y plant mai thema eu gwasanaeth oedd pa fwydydd sy'n dda i chi. Roedd pob un o'r plant wedi paratoi paentiadau o wahanol ffrwythau; fe wnaethant ddangos eu lluniau yn eu tro ac yna darllen disgrifiad yr oedden nhw wedi'i baratoi i'w ddweud yn Gymraeg yn esbonio pam mae'r ffrwyth hwnnw'n arbennig o dda i chi. Yna darllenodd y pennaeth weddi ac adroddodd yr ysgol gyfan weddi yn Gymraeg. Daeth y gwasanaeth i ben gydag emyn Cymraeg arall. Roedd gan y ddau emyn batrwm ailadroddus yr oedd y plant wedi'i 'ddysgu' ar eu cof (neu roeddent yn gallu darllen y geiriau Cymraeg ar y bwrdd gwyn rhyngweithiol). Gadawodd yr holl blant y neuadd i seiniau cerddoriaeth Gymreig draddodiadol.

## YSGRIFENNU

Mae Adroddiad Blynyddol 2010-2011 yn datgan mai ysgrifennu yw'r lleiaf datblygedig o'r tair sgìl Cymraeg yn y rhan fwyaf o leoliadau ac ysgolion. Mae hyn yn cyd-fynd â'r hyn a ganfuwyd trwy ymweld ag ysgolion a lleoliadau ar gyfer yr arolwg hwn. Mewn rhai ysgolion, mae gwaith ysgrifennu plant yn dda a gwelir hyn trwy'r amrywiaeth o frawddegau y gallant eu hysgrifennu yn Gymraeg. Pan fo plant yn ysgrifennu mwy na geiriau unigol, mae'r gwaith hwn yn aml yn cysylltu'n dda â'u darllen. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o ysgolion a lleoliadau, mae gwaith ysgrifennu plant wedi'i gyfyngu i gopïo ysgrifennu, llenwi bylchau ar daflenni gwaith ac ysgrifennu geiriau ac ymadroddion syml.

**Nodir isod rai enghreifftiau o sut mae ymarferwyr wedi datblygu medrau ysgrifennu Cymraeg plant yn llwyddiannus. Mae'r astudiaethau achos yn dangos nodweddion arfer dda o ysgolion neu leoliadau unigol neu gyfuniad o'r arfer dda a welwyd mewn sawl ysgol.**




### MAE MEGAN YM MLWYDDYN 1 YN YSGRIFENNU:

**Dwi wedi gwisgo pyjamas i helpu Plant mewn Angen.**

Mae Megan yn defnyddio amser y gorffennol yn gywir. Mae hi'n sillafu geiriau Cymraeg pob dydd yn gywir. Mae hi hefyd yn defnyddio priflythyren ac atalnod llawn.

Mae ei hathro yn marcio ei gwaith ysgrifenedig gan ddefnyddio sylwadau Cymraeg cadarnhaol.

## YSGRIFENNU RHESTRAU SIOPA

Mewn un dosbarth Blwyddyn 1 mewn ysgol fabanod, gofynnodd yr ymarferydd i'r dosbarth ysgrifennu rhestr siopa i wneud brechdanau. Defnyddiodd y plant eiriadur lluniau Cymraeg i lunio'r rhestr.

Dyma gopi o un rhestr siopa:

**Bara gwyn**
**Jam mefus**
**Menyn**
**Cig**
**Caws**
**Cyw iâr**
**Tiwna**


Ysgrifennodd bron pob un o'r plant restr siopa gywir gan ddefnyddio geiriadur Cymraeg yn hyderus i ddod o hyd i'r enwau Cymraeg ar gynhwysion brechdanau cyfarwydd.

## CYFNERTHU MEDRAU DARLLEN AC YSGRIFENNU TRWY WAITH Y PLANT EU HUNAIN

Rhoddwyd tasg i grŵp o saith o blant ym Mlwyddyn 1 i ysgrifennu llythyrau yn Gymraeg. Defnyddiodd y plant amrywiaeth dda o eirfa ac ymadroddion syml, a addysgwyd trwy gynllun 'Fflic a Fflac'. Er bod ystod eu gyrfa yn gyfyngedig, fe wnaethant lwyddo i ysgrifennu llythyrau a oedd yn cynnwys tair neu bedair brawddeg syml.

Yna gwahoddodd yr ymarferydd blant unigol yn y grŵp i ddarllen eu gwaith yn eglur i'r grŵp gan ddefnyddio'r pyped 'Fflic'. Gwrandawodd yr holl blant eraill yn ofalus ac roeddent yn deall yr hyn a oedd wedi'i ysgrifennu. Fe wnaethant i gyd ddarllen eu llythyr yn eu tro i'r plant eraill yn y grŵp.

Mewn rhai ysgolion, mae'r plant yn ddigon hyderus i ysgrifennu nodiadau, gwahoddiadau, darnau dyddiadur a llythyrau syml yn Gymraeg.  Dyma rai enghreifftiau:



WLD Skill: - organising communicate by using symbols, pictures, words, phases and short sentences. W/c 31.10.11

Fy Rhestr siopa
bara gwyn
jam mefus
menyn
cig
caws
cyw iâr
tuniau

Ⓢ ✓* wrote shopping list
* used dictionary
think about what you have to do next time

## MAE HARRY YM MLWYDDYN 1

Mae wedi ysgrifennu rhestr siopa yn Gymraeg i wneud brechdanau.  Mae wedi defnyddio geiriadur Cymraeg i ddod o hyd i'r geiriau Cymraeg am fwydydd cyffredin.  Mae ei sillafu Cymraeg yn gywir at ei gilydd.

Mae ei athro wedi defnyddio dau sylw cadarnhaol ac wedi amlygu'r ffordd ymlaen i wella ei waith.

## YSGRIFENNU GWAHODDIAD I BARTI YN GYMRAEG

Mewn un ysgol fabanod, mae disgybl Blwyddyn 1 wedi ysgrifennu gwahoddiad syml i barti:

| | |
|---|---|
| **Enw:** | **Oliver** |
| **Ble:** | **Dosbarth Mynydd bach** |
| **Amser:** | **tri o'r gloch** |
| **Dyddiad:** | **3 Tachwedd** |
| **Oddi wrth:** | **Jacob** |


Mae'r gwahoddiad hwn yn dangos bod Jacob wedi deall y dasg yn dda.

## YSGRIFENNU LLYTHYR SYML YN GYMRAEG

Mewn un ysgol fabanod, mae disgybl Blwyddyn 2 wedi ysgrifennu llythyr syml at Siôn Corn yn gofyn am anrheg:

**Annwyl Sion Corn,**
**Wi'n hapus, sut wyt ti?**
**Diolch am yr anrheg nadolig diwetha.**
**Ga i Maxi Girl am y Nadolig os gwelwch yn dda?**
**Hwyl fawr,**
**Love from Maxine**

Mae'r llythyr hwn yn dangos bod Maxine yn gallu defnyddio cyfarchion ac ymadroddion cyfarwydd fel 'Sut wyt ti?' a 'Hwyl fawr' yn gywir. Mae ganddi hefyd ddealltwriaeth dda o atalnodi ac mae'n aml yn defnyddio priflythrennau, marciau cwestiwn ac atalnodau llawn yn gywir.




## WYT TI'N HOFFI

Mae Emily, ym Mlwyddyn 1, wedi paratoi holiadur syml am ffrwythau i'w ffrind ei lenwi. Mae hi'n gofyn y cwestiwn:

**'Wyt tin hoffi?' (Do you like?)**

ac yn gwneud llun o bob ffrwyth unigol ac yn labeli'r ffrwythau yn Gymraeg. Mae hi'n defnyddio'r marc cwestiwn yn gywir yn ei gwaith. Yna mae ei ffrind wedi llenwi'r holiadur i fynegi ei hoff a'i chas bethau.

Fodd bynnag, ffurf gywir y cwestiwn yw 'Wyt ti'n hoffi?', sydd wedi'i chamdeipio yn nheitl y gwaith.




Darn dyddiadur

## MAE GEMMA, YM MLWYDDYN 2, YN YSGRIFENNU DARN AR GYFER DYDDIADUR:

**"Tachwedd 1af**

**Roedd hi'n heulog ac yn gymylog. Roedd hi'n bwrw glaw yn drwm. Roedd dail ar y llawr. roedd dail ar y coed gwyrdd oren brown ar melyn."**

Cyfieithiad

**"November 1st**

**It was sunny and cloudy. It was raining heavily. The leaves were on the floor. There were leaves on the trees green orange brown and yellow."**

Mae Gemma yn ysgrifennu'n hyderus ac yn gywir yn Gymraeg. Mae hi'n defnyddio amser y gorffennol yn dda ac yn sillafu'r holl eiriau Cymraeg yn gywir. Mae ganddi amgyffrediad da o liwiau yn Gymraeg. Gall Gemma ymestyn brawddegau syml, er enghraifft:

'Roedd hi'n bwrw glaw' drwy ychwanegu **'yn drwm'**.

Mae hi'n defnyddio priflythrennau ac atalnodau llawn yn gywir gan mwyaf.




## MAE LILY YM MLWYDDYN 2:

Mae hi wedi ysgrifennu ychydig frawddegau Cymraeg yn hyderus. Mae hi'n defnyddio amser y gorffennol yn gywir yn Gymraeg. Mae hi hefyd yn defnyddio atalnodau llawn yn gywir ac mae ei meistrolaeth ar briflythrennau yn datblygu'n dda. Mae ei defnydd o 've' yn lle 'fi' yn y llun yn dangos bod ganddi amgyffrediad da o seiniau Cymraeg, ond nad yw eto wedi meistroli orgraff y Gymraeg.




## MAE MIA, YM MLWYDDYN 2, WEDI YSGRIFENNU AM EI HYMWELIAD Â LLANELLI.

**"Wi wedi bod i weld Siôn Corn yn Llanelli gyda mami a Dadi a Steffan. Roedd lot o carnifal loris yn Llanelli. Wi wedi mynd ir Glamorgan arms. Roedd hin hwyl."**

Cyfieithiad

**"I've been to see Father Christmas in Llanelli with mami and Dadi and Steffan. There were lots of carnival lorries in Llanelli. We went to the Glamorgan arms. It was fun."**

Mae Mia yn defnyddio amser y gorffennol yn hyderus. Mae hi'n ysgrifennu'r rhan fwyaf o eiriau Cymraeg yn gywir ac yn amrywio strwythur ei brawddegau. Mae hi'n defnyddio atalnodau llawn yn gywir ac mae ei defnydd o briflythrennau'n datblygu'n dda.

## YSGRIFENNU STORÏAU

Mewn rhai ysgolion, mae ymarferwyr hyderus yn cynorthwyo'r plant i ysgrifennu storïau yn Gymraeg. Yn aml, mae'r storïau hyn wedi'u seilio ar eu hoff lyfrau darllen Cymraeg neu Saesneg. Mae plant yn ysgrifennu storïau gan ddefnyddio ymadroddion a brawddegau cyfarwydd a gyflwynwyd yn y dosbarth yn flaenorol. Yn aml, mae plant yn gwneud lluniau i fynd gyda'r storïau Cymraeg syml hyn ac mae'r rhain yn adnodd dosbarth gwerthfawr. Yn aml, mae plant yn mwynhau darllen y llyfrau Cymraeg gwreiddiol hyn.

I grynhoi, yn y sesiynau gorau, mae'r plant yn:

- gwrando, deall ac ymateb i orchmynion cyfarwydd;
- gwrando ac ymateb i gwestiynau syml;
- gwrando'n ofalus ar DVDau ac ymateb yn briodol;
- siarad yn eglur, gan ddefnyddio geiriau, cyfarchion ac ymadroddion syml;
- siarad gyda hyder a chywirdeb sy'n datblygu;
- mynegi eu hoff a'u cas bethau yn Gymraeg;
- defnyddio ymadroddion Cymraeg syml yn ddigymell mewn sefyllfaoedd chwarae rôl;
- darllen geiriau ac ymadroddion syml yn gywir;
- deall storïau Cymraeg a ddarllenir iddynt;
- ysgrifennu ymadroddion Cymraeg syml yn gywir;
- ysgrifennu rhestrau, llythyrau a darnau dyddiadur yn Gymraeg;
- defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu i ddadansoddi a dehongli data yn Gymraeg; ac
- ysgrifennu eu storïau syml eu hunain yn Gymraeg.

Mewn sesiynau lle y ceir diffygion:

- mae'r plant yn amharod i gymryd rhan mewn trafodaethau dosbarth cyfan;
- mae gan y plant ystod gyfyngedig o eirfa a phatrymau brawddegau;
- mae'r plant yn dangos diffyg hyder i siarad Cymraeg ac mae angen eu hannog yn gyson i gyfrannu atebion;
- nid yw'r plant yn defnyddio'r Gymraeg yn ddigymell; ac
- nid yw'r plant yn darllen na gwrando ar storïau Cymraeg nac yn datblygu eu medrau ysgrifennu Cymraeg.

# 2 DARPARIAETH

## ADDYSGU

Mae'r addysgu'n dda ymron pob sesiwn a arsylwyd yn ystod yr arolwg hwn. Dangosodd deilliannau arolygiadau 2010-2011, mewn lleoliadau nas cynhelir:

> **"Yn chwarter y lleoliadau, mae gwendidau yn y ffordd mae'r athrawon yn datblygu medrau darllen ac ysgrifennu cynnar y plant, eu medrau Cymraeg a'u medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu".**[8]

Yn yr ysgolion cynradd a babanod a arolygwyd yn 2010-2011, canfuom:

> **"Yn llawer o'r ysgolion, mae'r ddarpariaeth ar gyfer siarad a darllen Cymraeg fel ail iaith yn dda yn y gwersi Cymraeg. Ond yng nghyfnod allweddol 2, cyfyngedig yw'r ddarpariaeth sydd yn y gwersi eraill ar gyfer ysgrifennu yn Gymraeg a defnyddio'r iaith."**[9]

Mae'r addysgu gorau a arsylwyd yn ystod yr arolwg hwn yn ennyn diddordeb y plant, yn aml trwy eu cynnwys mewn amrywiaeth o weithgareddau diddorol sy'n defnyddio cymysgedd o adnoddau ysgogol. Mae ymarferwyr yn defnyddio canmoliaeth yn effeithiol i annog plant i 'roi cynnig' ar ddefnyddio eu medrau Cymraeg. Mae bron pob plentyn yn ymateb yn frwdfrydig i addysgu mewn sesiynau o'r fath. Er enghraifft, maent yn dangos medrau siarad da; maent yn gyfathrebwyr hyderus ac yn dangos agwedd gadarnhaol tuag at ddarllen ac ysgrifennu pan roddir cyfle iddynt. Mae'r addysgu yn y gwersi gorau yn ddeinamig ac mae'r gwaith yn symud ymlaen yn gyflym drwy gydol y sesiwn. Yn aml, ceir amrywiaeth o weithgareddau a gynlluniwyd yn dda gyda phwyslais da ar ddatblygu medrau Cymraeg llafar.

Mewn rhai sesiynau, nid yw ymarferwyr yn darparu digon o gyfleoedd i'r disgyblion ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Gymraeg ac nid ydynt yn gosod disgwyliadau digon uchel o ran yr hyn y gall y disgyblion ei gyflawni. Pan fo safonau'n ddigonol neu'n is ym maes Datblygu'r Gymraeg, nid yw ymarferwyr yn gosod disgwyliadau priodol ynglŷn â chyflawniad plant mewn medrau llafar, darllen ac ysgrifennu. Nid ydynt yn cynnig digon o gyfleoedd i'r plant gyfnerthu eu dysgu a herio eu dysgu ymhellach. Nid yw gwaith i herio plant mwy abl, yn arbennig, wedi'i gynllunio'n dda.

---

[8] Adroddiad Blynyddol PAEM ar gyfer Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2010-2011 Adran 2, Lleoliadau i blant dan bump oed, Tudalen 38

[9] Adroddiad Blynyddol PAEM ar gyfer Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2010-2011 Adran 2, Ysgolion cynradd, Tudalen 6

## Cynlluniau gwaith

Mae'r lleoliadau a'r ysgolion gorau yn cynllunio'n dda ac mae ganddynt gynlluniau gwaith manwl. Mae rhai o'r cynlluniau hyn wedi'u haddasu o'r cynlluniau gwaith a baratowyd gan y gwasanaeth Athrawon Bro lleol.

Mae'r cynlluniau gwaith Cymraeg gorau yn fanwl ac yn ymdrin â'r gofynion ar gyfer Datblygu'r Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen. Maent yn galluogi'r ymarferwyr i gynllunio a darparu addysgu o ansawdd uchel sy'n ychwanegu at ddysgu blaenorol. Mae'r ymarferwyr yn gwybod yn union beth y mae'n rhaid iddynt ei addysgu ac mae'r amcanion dysgu'n eglur. Maent yn nodi dulliau addysgu fel gweithgareddau dosbarth cyfan, gwaith grŵp, gwaith pâr neu waith unigol. Maent yn nodi gofynion adnoddau yn eglur hefyd.

Mewn nifer o awdurdodau lleol, mae'r timau Athrawon Bro yng ngwasanaethau ymgynghorol y Gymraeg yn cynorthwyo ysgolion trwy baratoi cynlluniau gwaith manwl ar gyfer ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen. Yn aml, mae adnoddau lleol a chenedlaethol, fel DVDau, ar gael i ategu'r cynlluniau hyn. Fodd bynnag, nid yw pob ymarferydd yn addasu ei gynlluniau'n ddigonol, er enghraifft, i fodloni anghenion dosbarthiadau oedran cymysg neu blant sy'n cyflawni'n uwch. Er bod darllen ac ysgrifennu yn rhan o'r cynlluniau gwaith, nid ydynt bob amser yn trosglwyddo'n effeithiol i ymarfer yn yr ystafell ddosbarth.

## Cynllunio ar gyfer dilyniant

Nid yw cynllunio ar gyfer dilyniant o ran medrau Cymraeg plant wedi'i ddatblygu digon yn y rhan fwyaf o ysgolion a lleoliadau. Mae hyn yn golygu bod plant yn ailadrodd yr un gwaith hyd yn oed pan fyddant wedi meistroli pwnc penodol. I'r gwrthwyneb, nid yw plant yn cael digon o gyfnerthu tymor hir wrth iddynt symud ymlaen i lefelau uwch. Ychydig iawn o'r ysgolion a'r lleoliadau yr ymwelwyd â nhw sydd â chynlluniau manwl ar gyfer dilyniant o ran dysgu'r Gymraeg.

## Amser yn y cwricwlwm

Er bod y rhan fwyaf o ysgolion a lleoliadau yn neilltuo digon o amser i addysgu'r Gymraeg, mae ychydig nad ydynt yn gwneud hynny. Yn yr ysgolion a'r lleoliadau hyn, mae'r amser a neilltuir i Ddatblygu'r Gymraeg yn amrywio gormod. Ni cheir digon o addysgu'r Gymraeg yn uniongyrchol mewn gweithgareddau â chanolbwynt penodol iddynt neu mewn gweithgareddau parhaus ac estynedig.

## Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu

Mae technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn cynnig llawer o gyfleoedd i ddisgyblion sy'n dysgu'r Gymraeg. Mae'n cynyddu hunanhyder a chymhelliad disgyblion wrth ddarllen Cymraeg. Mae'n gallu ysgogi disgyblion i gymryd rhan weithredol yn y broses ddysgu.

Yn ystod ein hymweliadau, mae ymarferwyr mewn ysgolion yn defnyddio byrddau gwyn rhyngweithiol yn dda i gyflwyno gwaith ac ennyn diddordeb y plant yn y sesiwn.

Nodweddir sesiynau y bernir eu bod yn dda o leiaf o ran defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu i addysgu'r Gymraeg, gan ymarferwyr sy'n cynnig y canlynol i'r plant:

- cyfleoedd rheolaidd i ymarfer eu medrau Cymraeg gan ddefnyddio ystod o gyfryngau, fel storïau Cymraeg ar gryno ddisgiau, gemau rhyngweithiol, rhaglenni teledu a DVDau;
- cyfleoedd rheolaidd i ddefnyddio byrddau gwyn rhyngweithiol i ymarfer medrau darllen ac ysgrifennu;
- cyfleoedd i glywed modelau da o ynganiad a goslef Cymraeg;
- deunydd darllen cyfoes trwy ddefnyddio adnoddau a gafwyd o'r grid cenedlaethol ar gyfer dysgu; a
- chyfleoedd i ddrafftio ac ailddrafftio eu gwaith ysgrifenedig gan ddefnyddio prosesydd geiriau.

## FY HOFF FRECHDAN

Mewn un dosbarth Blwyddyn 1 mewn ysgol fabanod, rhoddwyd her i'r plant lunio holiadur am eu hoff frechdan. Gofynnodd y plant gyfres o gwestiynau i bob aelod o'r dosbarth yn Gymraeg.

| | |
|---|---|
| **Plentyn 1:** | Bore da, pwy wyt ti? |
| **Plentyn 2:** | Hannah ydw i. |
| **Plentyn 1:** | Wyt ti'n hoffi brechdanau caws? |
| **Plentyn 2:** | Ydw. |
| **Plentyn 1:** | Wyt ti'n hoffi brechdanau cyw iâr? |
| **Plentyn 2:** | Ydw. |
| **Plentyn 1:** | Wyt ti'n hoffi brechdanau wyau? |
| **Plentyn 2:** | Nac ydw. Ych a fi! |
| **Plentyn 1:** | Diolch yn fawr. |

Ar ôl i'r plant orffen yr holiadur, rhoesant yr holl ddata mewn cronfa ddata er mwyn cynhyrchu siart bar syml.

Marciodd yr ymarferydd y gwaith gan ddefnyddio'r dechneg asesu ar gyfer dysgu o ddau sylw cadarnhaol a tharged newydd.

### Defnyddio Cymraeg achlysurol drwy gydol y dydd

Mae addysgu iaith achlysurol yn cyfeirio at ryngweithio rhwng oedolion a phlant sy'n digwydd yn naturiol mewn sefyllfa heb ei strwythuro lle mae oedolion yn trosglwyddo gwybodaeth newydd neu'n rhoi cyfle i blant ymarfer medr cyfathrebu. Yn aml, gall y rhyngweithio hyn fod ar ffurf cwestiynau, fel:

| | |
|---|---|
| **'Wyt ti eisiau...?'** | **Do you want...?** |
| **Wyt ti'n hoffi** | |
| **'Ga i...?'** | **May I have...?** |

Mae llawer o ymarferwyr yn defnyddio Cymraeg achlysurol yn rheolaidd ac yn dda yn eu hystafelloedd dosbarth.  Mae'r rhan fwyaf o blant yn deall ystod o orchmynion cyfarwydd ac yn ymateb yn gywir yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau a arsylwyd.

## DEFNYDDIO IAITH ACHLYSUROL WRTH CHWARAE Y TU ALLAN MEWN MEITHRINFA

Mewn un feithrinfa, mae'r ymarferwyr yn y lleoliad yn defnyddio iaith achlysurol yn rheolaidd yn y man awyr agored ar gyfer gweithgaredd chwarae a gynlluniwyd.

Gwahoddodd yr ymarferwyr y plant i chwarae ar amrywiaeth o adnoddau chwarae mawr er mwyn datblygu eu medrau echddygol bras.  Gweithiodd yr holl ymarferwyr gyda grwpiau bach gan roi ystod o orchmynion, fel:

Rhedwch – Run
Cerddwch – Walk
Sgipiwch – Skip
Eisteddwch – Sit
Stopiwch – Stop

Gwrandawodd yr holl blant yn astud a dilyn y cyfarwyddiadau'n dda.  Roeddent i gyd wedi mwynhau'r gweithgaredd ac wedi cael hwyl yn chwarae ar yr iard.

Mae llawer o ymarferwyr yn cyflwyno geiriau ac ymadroddion syml yn achlysurol wrth i'r plant chwarae.  Caiff yr eirfa hon ei hymarfer yn rheolaidd a'i chyfnerthu drwy gydol y sesiwn o fewn trefn ddyddiol y dosbarth.  Er enghraifft:

| | |
|---|---|
| **'Bore da blant'** | **Good morning children** |
| **'Mae'n amser tacluso'** | **It's time to tidy things away** |
| **'Mae'n amser chwarae'** | **It's playtime** |

Mae ymarferwyr fel arfer yn cadw'r ymadroddion iaith achlysurol yn fyr ac maen nhw'n aml yn rhoi anogaeth ychwanegol os yw'r plant yn ansicr neu os nad ydynt yn deall.  Mae'r defnydd o Gymraeg achlysurol yn aml yn cael ei gynllunio a'i gofnodi yng nghynlluniau tymor canolig Datblygu'r Gymraeg.  Fodd bynnag, ychydig iawn o ysgolion a lleoliadau sy'n cynnwys dilyniant mewn iaith achlysurol, ac mewn ysgolion cynradd; yn arbennig, mae'r plant yn aml yn clywed yr un ymadroddion drwy gydol eu hamser yn yr ysgol gynradd.

## GALW'R GOFRESTR YN GYMRAEG

Mewn dosbarth derbyn mewn ysgol fabanod, mae'r broses o lenwi'r gofrestr yn cael ei chynnal fel cân. Mae'r plant yn canu eu hateb i gwestiwn yr athro. Maent hefyd yn ailadrodd y patrymau iaith a genir gan yr athro, er enghraifft:

| | |
|---|---|
| **Athro:** | Jac? |
| **Plentyn:** | Yma, Miss Jones. |
| **Athro:** | Oliver? Ble mae Oliver? |
| **Plentyn:** | Mae Oliver yn absennol.<br>Mae Oliver yn Awstralia. |
| **Athro:** | Ble mae Megan? |
| **Plentyn:** | Mae Megan yn absennol.<br>Mae Megan wedi mynd i'r ysbyty. |

Mae'r plant i gyd yn ymateb yn briodol. Yna mae'r athro yn gofyn a yw'r plant am gael cinio yn yr ysgol ac maent yn ateb. Mae'r athro hefyd yn amrywio'r cwestiwn yn unol â pha mor hyderus yw'r plant unigol yn siarad Cymraeg:

| | |
|---|---|
| **Athro:** | Wyt ti eisiau cinio Daisy? |
| **Plentyn:** | Ydw |
| **Athro:** | Cinio neu brechdanau Harry? |
| **Plentyn:** | Ga i ginio, os gwelwch yn dda? |
| **Athro:** | Oes bocs bwyd gyda ti Lucy? |
| **Plentyn:** | Oes |
| **Athro:** | Oes bocs bwyd gyda ti Jacob? |
| **Plentyn:** | Nac oes, ga i ginio os gwelwch yn dda? |

Ailadroddir yr ymarferion llafar hyn bob bore, ac maent yn galluogi'r plant i ddatblygu ystod dda o eirfa ac ymatebion perthnasol yng nghyd-destun gweithdrefnau dyddiol yr ystafell ddosbarth.

Cynllun llwyddiannus arall a ddefnyddir gan ymarferwyr mewn nifer o ddosbarthiadau mewn ysgolion yw'r system 'helpwr heddiw'. Mae 'helpwr heddiw' yn helpu'r athro y diwrnod hwnnw. Mae ef neu hi yn helpu'r ymarferydd gyda threfn ddyddiol arferol yr ystafell ddosbarth, yn aml trwy ddosbarthu a chasglu llyfrau a helpu'n gyffredinol yn y dosbarth gan ddefnyddio geiriau ac ymadroddion y maent yn clywed oedolion yn y dosbarth yn eu defnyddio.

## 'HELPWR HEDDIW'

Mae pob disgybl yn y dosbarth yn cael y cyfle i fod yn 'helpwr heddiw'. Mae 'helpwr heddiw' yn aml yn gwisgo bathodyn i ddangos pwysigrwydd y rôl hon.

Mae 'helpwr heddiw' yn cynorthwyo'r athro dosbarth i gyfarwyddo gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r plentyn yn gofyn cyfres o gwestiynau cyfarwydd ac yn defnyddio gorchmynion i gyfarwyddo gweddill y dosbarth. Wrth i blant symud ymlaen trwy'r Cyfnod Sylfaen, mae cwestiynau 'helpwr heddiw' yn dod yn gynyddol heriol er mwyn sicrhau dilyniant o ran dysgu iaith.

Mae llawer o ymarferwyr yn gwneud defnydd gwell o'r awyr agored fel amgylchedd dysgu ychwanegol cyffrous ac ysgogol lle y gall plant ddatblygu eu medrau ar draws pob maes dysgu. Pan gyflwynir gweithgareddau awyr agored Cymraeg fel gweithgareddau llawn hwyl, mae'r plant yn mwynhau'r gweithgareddau ac yn dysgu ymadroddion Cymraeg newydd yn dda.

## DEFNYDDIO'R AWYR AGORED I DDATBLYGU MEDRAU SIARAD: PLANNU BLODAU YNG NGARDD Y FEITHRINFA

Mewn un lleoliad, cyflwynodd yr ymarferydd weithgaredd plannu blodau yng ngardd y feithrinfa drwy adrodd stori Gymraeg syml, a ysgrifennwyd gan yr ymarferydd. Cafodd yr holl eiriau a ddefnyddiwyd yn y stori eu cyflwyno mewn sesiwn flaenorol. Gwrandawodd yr holl blant yn astud ac ateb cwestiynau syml am gynnwys y stori, ac roeddent yn gwybod yr eirfa allweddol sef 'palu', 'plannu', a 'dŵr'. Fe wnaethant hefyd ganu cân am arddio gan ddefnyddio'r un eirfa. Yna, mewn grwpiau bach, aeth y plant i'r ardd a phlannu'r blodau gyda chynorthwy-ydd cymorth dysgu neu'r ymarferydd arweiniol.

Roedd y plant i gyd wedi mwynhau'r gweithgaredd ymarferol hwn ac roeddent yn gallu defnyddio ystod o eiriau ac ymadroddion Cymraeg syml yn hyderus ac yn gywir.

Yn ystod ein hymweliadau ag ystafelloedd dosbarth, roedd rhai ymarferwyr mewn ysgolion yn defnyddio ymarferion drilio'n effeithiol i gyflwyno geiriau neu ymadroddion Cymraeg newydd. Mae ymarferion drilio'n rhoi cyfle i'r dosbarth, naill ai'n unigol neu fel grŵp, ymarfer ffurfiau ieithyddol newydd. Fe all fod mor syml ag ailadrodd gair neu ymadrodd, neu ailadrodd brawddegau cyfan sawl gwaith er mwyn helpu'r plant i ddysgu patrymau Cymraeg newydd ar eu cof. Gall drilio effeithiol helpu i ddatblygu medrau gwrando plant. Fe all hefyd helpu plant i ddysgu sut i ynganu ymadroddion, seiniau a geiriau Cymraeg newydd. Mae drilio'n rhoi cyfle i blant gael adborth ar unwaith ar gywirdeb eu hynganiad gan yr ymarferwyr.

## ASESU

Mae'n ofynnol i ysgolion asesu ac adrodd i'r rhieni ar Ddatblygu'r Gymraeg ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen. Fodd bynnag, nid yw'n ofynnol i ysgolion gasglu data am gynnydd plant unigol o ran Datblygu'r Gymraeg. Nid oes data asesu safonol ar gael ar lefel ysgol, awdurdod lleol na chenedlaethol. Cynhelir yr unig asesiad ffurfiol o gynnydd plant mewn Cymraeg fel ail iaith ar ddiwedd cyfnod allweddol 2. Ni cheir dull adrodd systematig i olrhain cynnydd plant yn y Gymraeg o'u haddysg gynnar mewn lleoliadau hyd at ddiwedd y Cyfnod Sylfaen ac ymlaen i ddiwedd cyfnod allweddol 2. Mae gan hyn oblygiadau o ran olrhain cynnydd disgyblion mewn Cymraeg fel ail iaith.

Mae Strategaeth Addysg Gymraeg Llywodraeth Cymru yn caniatáu ar gyfer y posibilrwydd y bydd rhai dysgwyr yn ymuno ag addysg Gymraeg ar gyfnod ar ôl iddynt gyrraedd tair oed. Gall hyn olygu y gallai profiadau cychwynnol plant o ddarpariaeth Gymraeg trwy'r Cyfnod Sylfaen ddarparu'r sail a'r ysgogiad i blant drosglwyddo i ysgol Gymraeg cyn iddynt gyrraedd saith oed. Er mwyn galluogi plant i drosglwyddo'n rhwydd, mae angen i ysgolion fonitro cynnydd plant yn gywir o ran Datblygu'r Gymraeg.

## DATBLYGU PORTFFOLIO YSGRIFENNU AR GYFER DATBLYGU'R GYMRAEG

Mewn un ysgol, mae ymarferwyr wedi casglu amrywiaeth eang o enghreifftiau o waith y plant sy'n dangos eu cynnydd o ran datblygu gwybodaeth a medrau ym maes Datblygu'r Gymraeg. Mae'r portffolio hwn yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol a thystiolaeth werthfawr i'r ymarferwyr er mwyn iddynt allu cadw golwg ar yr hyn y mae'r dysgwyr yn ei wybod ac yn gallu ei wneud yn y Gymraeg.

Mae'r portffolio'n cynnwys enghreifftiau o waith ysgrifenedig y plant, fel llythyrau, storïau syml a thaflenni gwaith. Mae ymarferwyr yn defnyddio'r portffolio hwn yn dda i ddadansoddi dysgu a chynnydd y plant, yn ogystal ag amlygu'r gwahanol fathau o ysgrifennu a gyflwynwyd yn Gymraeg o'r meithrin hyd at ddiwedd y Cyfnod Sylfaen. Mae ymarferwyr hefyd yn defnyddio'r portffolio fel canllaw ynglŷn â lefel y gwaith y dylent ei disgwyl gan ddisgyblion o wahanol alluoedd ac i gynorthwyo wrth safoni a chymedroli gwaith y plant.

Mae'r portffolio'n ffynhonnell bwysig o dystiolaeth a ddefnyddir gan staff cyfnod allweddol 2 i gynllunio dilyniant yn y Gymraeg.

## ASESU AR GYFER DYSGU

Gellir disgrifio asesu ar gyfer dysgu fel unrhyw weithgaredd asesu sy'n llywio camau nesaf dysgu plant. Mae'r math hwn o asesu ffurfiannol yn canolbwyntio ar gyflawniadau'r dysgwr a ffyrdd y gall ef neu hi symud ymlaen. O ran Datblygu'r Gymraeg, dylai plant wybod pa lefel y maen nhw arni, pa lefel y mae angen iddyn nhw weithio tuag ati a sut i'w chyrraedd. Mae pob ymarferydd yn defnyddio canmoliaeth ac anogaeth i ysgogi eu plant i ddysgu Cymraeg yn y sesiynau a arsylwyd.

Dim ond ychydig o dechnegau asesu ar gyfer dysgu a ddefnyddir yn briodol gan lawer o'r ymarferwyr yn yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw. Asesu ar gyfer dysgu yw un o'r agweddau gwannaf ar addysgu Cymraeg. Er enghraifft, nid yw ymarferwyr bob amser yn ymwybodol o ba gam y mae'r plant wedi'i gyrraedd mewn sesiynau blaenorol ac nid oes cysylltiad eglur rhwng dysgu plant a chynllunio gwersi. Nid yw'r plant yn gwybod sut maen nhw'n datblygu yn y gwahanol fedrau Cymraeg a sut y gallent wella.

Pan fo ymarferwyr yn defnyddio technegau asesu ar gyfer dysgu yn hyderus, mae'r plant yn aml yn gwneud penderfyniadau da am eu dysgu. Mewn llawer o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae'r system 'Dwy Seren a Dymuniad' (dau sylw cadarnhaol a tharged newydd) yn darparu strwythur defnyddiol i helpu plant i ddysgu medrau asesu gan gyfoedion a hunanasesu. Mae hyn yn arwain at wybodaeth ddefnyddiol a all fwydo'n ôl i'r cylch addysgu a dysgu.

I grynhoi, mewn sesiynau lle y bernir bod y ddarpariaeth yn dda o leiaf, mae ymarferwyr yn:

- meddu ar amcanion eglur sy'n canolbwyntio ar sicrhau bod y plant yn caffael gwybodaeth a medrau ym maes Datblygu'r Gymraeg;
- meddu ar gynlluniau gwaith a gynlluniwyd yn dda sy'n datblygu medrau llafar, darllen ac ysgrifennu'r plant;
- meddu ar wybodaeth dda am y cynnwys Cymraeg sydd i'w addysgu;
- ynganu geiriau ac ymadroddion Cymraeg yn eglur ac yn gywir, sy'n darparu model da i'r plant ac yn cefnogi eu medrau llafar;
- trefnu a rheoli'r ystafell ddosbarth yn effeithlon, gyda chymorth effeithiol gan gynorthwywyr cymorth dysgu mewn gwersi dosbarth cyfan;
- defnyddio sesiynau addysgu byr a gynlluniwyd, a chyfyngu ar gynnwys newydd er mwyn ymdopi â chyfnodau canolbwyntio byrrach plant ifanc;
- defnyddio pypedau neu wrthrychau i ychwanegu hwyl ac elfennau annisgwyl at y sesiwn;
- defnyddio caneuon symud a rhigymau i annog ymateb corfforol;
- defnyddio storïau Cymraeg i ddatblygu medrau gwrando'r plant;
- adolygu a chyfnerthu ymadroddion a medrau Cymraeg a addysgwyd yn flaenorol yn aml;
- cyfeirio cwestiynau, adborth a chanmoliaeth yn eglur;
- sicrhau bod yr addysgu a'r dysgu'n symud ymlaen ar gyflymdra da;
- rhoi cyfleoedd i'r plant weithio mewn parau neu grwpiau i gefnogi eu dysgu ei gilydd;
- defnyddio ystod o dechnegau asesu ar gyfer dysgu; ac yn
- defnyddio ystod o adnoddau da.

Lle y bernir bod y ddarpariaeth yn ddigonol yn unig:

- nid yw'r ymarferwyr yn adolygu geirfa ac ymadroddion Cymraeg a addysgwyd yn flaenorol yn ddigon da i gyfnerthu dysgu'r plant;
- nid yw'r ymarferwyr yn ailadrodd neu'n ymarfer geiriau ac ymadroddion Cymraeg newydd digon, ac felly mae'r plant yn aml yn ansicr ynglŷn â sut i ynganu geiriau Cymraeg yn gywir;
- mae'r ymarferwyr yn rhoi cyfleoedd cyfyngedig yn unig i'r plant ddefnyddio'r Gymraeg maen nhw newydd ei dysgu mewn sefyllfaoedd newydd;
- mae gan yr ymarferwyr ddisgwyliadau isel o ran yr hyn y gall y plant ei gyflawni yn y sesiwn, neu nid ydynt yn herio'r plant digon;
- nid yw'r ymarferwyr yn rhoi digon o gyfleoedd i'r plant ymarfer eu sgiliau Cymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth;
- mae ynganiad Cymraeg yr ymarferwyr yn amwys neu'n anghywir;
- mae'r ymarferwyr yn defnyddio ystod gyfyngedig o adnoddau; ac
- nid yw'r ymarferwyr yn defnyddio eu cynorthwywyr cymorth dysgu yn effeithiol i gyfoethogi'r dysgu.

# 3 ARWEINYDDIAETH A GWELLA ANSAWDD

Mae ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn dda o leiaf yn y rhan fwyaf o'r lleoliadau a'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw.  Adlewyrchir hyn hefyd yn Adroddiad Blynyddol 2010-2011, lle y dywedwyd:

> **"Mae'r arweinyddiaeth yn dda neu'n well yn y rhan fwyaf o'r lleoliadau y gwnaethon ni eu harolygu.  Yn y nifer bach iawn o'r lleoliadau lle mae'r arweinyddiaeth yn rhagorol, mae'r arweinwyr yn annog y staff i fyfyrio ar eu hymarfer eu hunain ac i ddod o hyd i ffyrdd gwell o wneud pethau."[10]**

Mewn ysgolion cynradd a babanod, nodwyd gennym:

> **"Mae'r arweinyddiaeth yn dda neu'n well yn nhri chwarter yr ysgolion a gafodd eu harolygu.  Yn tua un o bob deg ysgol mae'r arweinyddiaeth yn rhagorol.  Yn yr ysgolion yma, mae disgwyliadau'r arweinwyr yn uchel ac maen nhw'n rhoi pwyslais cadarn ar wella safonau ac ansawdd."[11]**

Mae'r rhan fwyaf o uwch arweinwyr a rheolwyr yr ymwelwyd â nhw yn ymrwymedig i addysgu'r Gymraeg yn effeithiol, ac mae'r rhan fwyaf o arweinwyr neu gydgysylltwyr pwnc mewn ysgolion yn ymwybodol o'r cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â'u rolau ac yn gwybod sut i gyflwyno'r Gymraeg ar draws yr ysgol.  Fodd bynnag, mae rhai penaethiaid ac arweinwyr yn ansicr ynglŷn â sut i fonitro cynnydd yn y Gymraeg.  Mae hyn yn aml oherwydd eu diffyg arbenigedd eu hunain yn y Gymraeg ac mewn dulliau addysgu'r Gymraeg.

Yn yr ysgolion a'r lleoliadau gorau, mae uwch aelod o staff yn arwain ar Ddatblygu'r Gymraeg.  Yn aml, mae'r rôl hon yn cynnwys asesu'r ddarpariaeth yn y Maes Dysgu yn gyffredinol, a ategir gan fonitro rheolaidd.  Mae'r gwaith monitro hwn yn edrych ar faterion fel anghysondebau mewn arferion cyfredol ac yn llywio'r broses o osod targedau a hunanarfarnu gan yr ysgol.

[10] Adroddiad Blynyddol PAEM ar gyfer Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2010-2011 Adran 2, Lleoliadau i blant dan bump oed, Tudalen 6

[11] Adroddiad Blynyddol PAEM ar gyfer Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2010-2011 Adran 2, Ysgolion cynradd, Tudalen 8

## ARFER DDA O RAN DEFNYDDIO YMCHWIL WEITHREDU AR GYFER HUNANARFARNU

Datblygodd un ysgol feithrin yn ne-orllewin Cymru ddull hunanarfarnu wedi'i seilio ar ymchwil weithredu. Mae hyn yn darparu cyfrwng effeithiol i'r ysgol ganolbwyntio ar agweddau penodol ar ei darpariaeth a'i safonau. Er enghraifft, yn ystod tymor yr hydref, trafodwyd y cysyniad o 'ddrilio' patrymau iaith mewn cyfarfod staff. Datblygodd y staff strategaeth a dull ysgol gyfan a dechreuodd yr ymarferwyr roi'r strategaeth ar waith ar unwaith. Ymwelodd y pennaeth â phob dosbarth tua mis yn ddiweddarach gydag athro ymgynghorol y Gymraeg i fonitro'r ddarpariaeth.

Cododd 'cwestiwn ymchwil weithredu' o'r arsylwadau dosbarth a'r trafodaethau dilynol. Cytunodd pob aelod o'r staff ar y pwyslais canlynol:

> **I ba raddau yr ydym ni'n darparu ar gyfer parhad, gwahaniaethu a dilyniant o ran Datblygu'r Gymraeg?**

I ateb y cwestiwn, cynhaliodd arweinwyr yr ysgol arsylwadau â phwyslais penodol, rhoddwyd holiaduron i'r staff a chyfwelwyd grwpiau o ddisgyblion. Dadansoddodd a thrafododd y staff yr arsylwadau a nodi targedau penodol ar gyfer pob dosbarth. Bydd y canfyddiadau hyn yn llywio sesiwn hyfforddi nesaf yr ysgol.

Adroddodd y pennaeth fod y dystiolaeth yn gallu bod yn amwys weithiau a'i bod hi'n anodd canfod y prif negeseuon er mwyn nodi themâu a blaenoriaethau. Er ei bod yn rhy gynnar i fesur effaith y dull hwn o ymchwil weithredu, mae'r ysgol yn sefydlu dealltwriaeth eglur o'r ddarpariaeth a'r safonau o ran Datblygu'r Gymraeg. Mae'r pwyslais eglur yn galluogi'r ysgol i nodi'r hyn y mae angen iddi ei wneud i wella safonau, gan gynnwys nodi anghenion hyfforddi staff, anghysondebau o ran cynllunio, materion yn ymwneud ag addysgu a grwpiau o ddisgyblion sydd angen cymorth ychwanegol.

Nodweddir yr ysgolion a'r lleoliadau gorau yr ymwelwyd â nhw gan eu dull cyson o sicrhau bod pob ymarferydd yn cynorthwyo pob plentyn i ddysgu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg yn hyderus.

## ARWEINYDDIAETH EFFEITHIOL I GYFLWYNO'R GYMRAEG DRWY GYDOL Y DYDD MEWN YSGOL FEITHRIN

Mewn ysgol feithrin mewn ardal Cymunedau yn Gyntaf yng ngogledd-ddwyrain Cymru, mae'r uwch dîm arwain cyfan yn rhannu gweledigaeth ar gyfer codi safonau yn y Gymraeg. Mae'r staff yn rhannu'r weledigaeth hon ac wedi ymrwymo i wella medrau Cymraeg y plant. Mae pob aelod o'r staff, waeth beth yw eu lefelau hyfedredd unigol yn y Gymraeg, yn gwneud ymdrech ragorol i siarad Cymraeg drwy gydol y dydd.

Mae pwyslais eglur ar gynllunio ar gyfer datblygu pob un o'r tri medr Cymraeg. Mae'r ysgol yn darparu deunydd cymorth da iawn i'r aelodau staff hynny nad ydynt mor hyderus ag eraill.

Mae ethos Cymreig cadarnhaol yn yr ysgol. Mae'r holl blant yn ymwybodol o'r hyn y mae'n ei olygu i fod yn Gymry a byw yng Nghymru, ac maent yn awyddus i ddysgu'r iaith. Mae'r gwaith a gynhyrchwyd ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen o safon dda iawn.

## ARWEINYDDIAETH EFFEITHIOL O RAN HYBU MAES DATBLYGU'R GYMRAEG

Mewn ysgol fabanod arall yn ne-orllewin Cymru, mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gref iawn. Mae hi'n ymrwymedig i sicrhau bod disgyblion ar draws yr ysgol yn cael dirnadaeth a dealltwriaeth ddofn o'r iaith Gymraeg a'u treftadaeth. Mae'n cyfleu'r neges hon yn gyson i'r rhieni presennol ac i rieni sy'n gwneud cais am le i'w plentyn yn yr ysgol. Mae rhieni a darpar rieni yn deall nodau'r ysgol a'i phwyslais ar y Gymraeg.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau cryf â'r rhieni i gefnogi maes Datblygu'r Gymraeg. Er enghraifft, mae'r ysgol yn cynhyrchu taflen sy'n amlinellu'r prif eiriau ac ymadroddion a ddefnyddir gan y plant, ac anogir y rhieni i ymarfer y geiriau gartref gyda'u plant.

Mae Datblygu'r Gymraeg yn rhan o gylch hunanarfarnu'r ysgol a rhoddir pwyslais rheolaidd ar werthuso safonau a'r ddarpariaeth bob dwy flynedd. Un elfen bwysig o strategaeth wella'r ysgol yw modelu arfer dda gan ymarferwyr. Cynhelir sesiynau min nos yn rheolaidd i ledaenu arfer dda o ran cyflwyno maes Datblygu'r Gymraeg yn effeithiol. Caiff y staff eu hyfforddi ar ddarllen mewn parau a darllen dan arweiniad yn Gymraeg, drilio patrymau ieithyddol y Gymraeg, a datblygu sgiliau ysgrifennu yn y Gymraeg.

Mae llawer o ysgolion a lleoliadau'n datblygu partneriaeth gref â rhieni a gofalwyr er mwyn cefnogi dysgu ym maes Datblygu'r Gymraeg. Yn aml, mae'r ysgolion a'r lleoliadau'n hysbysu rhieni am bwysigrwydd dysgu Cymraeg a'r ethos cadarnhaol y mae'r ysgol yn ceisio ei greu tuag at ddysgu Cymraeg yn ystod nosweithiau 'cyfarfod â'r athro'. Yn aml, anogir rhieni a gofalwyr i gefnogi dysgu eu plant trwy ddefnyddio 'sachau cymeriadau' o storïau Cymraeg, fel Tedi Twt, Dafydd y ddraig a Tomos, a anfonir adref gyda'r plant i gyfnerthu'r patrymau Cymraeg y maent wedi'u dysgu yn yr ysgol. Ceir rhestr o batrymau brawddegau/sefyllfaoedd chwarae rôl Cymraeg y mae'r plant yn eu dysgu ar wefan yr ysgol hefyd.

## DOSBARTHIADAU CYMRAEG I RIENI

Mewn un ysgol fabanod yn ne-orllewin Cymru, mae'r pennaeth yn addysgu dau ddosbarth nos Cymraeg yr wythnos yn yr ysgol ar gyfer rhieni ac aelodau eraill o'r gymuned. Mae hyn yn galluogi rhieni i ddeall y geiriau a'r ymadroddion Cymraeg a gyflwynir mewn sesiynau Datblygu'r Gymraeg yn y dosbarth. Mae hefyd yn helpu rhieni i gefnogi dysgu eu plant trwy roi'r hyder iddynt ddarllen i'w plant a chyda'u plant gartref.

## PARATOI DEUNYDD CYNORTHWYOL I RIENI AR GYFER DATBLYGU'R GYMRAEG

Mae un lleoliad yng ngogledd-ddwyrain Cymru wedi paratoi llyfryn manwl i rieni i'w helpu i ddeall yr eirfa a'r geiriau Cymraeg a ddefnyddir yn y lleoliad. Mae'r llyfryn hwn yn cynnwys amrywiaeth o ymadroddion Cymraeg syml a ddefnyddir yn y lleoliad bob dydd, ystod o ganeuon Cymraeg ac ymadroddion am y tywydd. Mae'r llyfryn yn galluogi rhieni i gefnogi dysgu eu plant gartref.

I grynhoi, pan fo uwch arweinwyr yn ymroddedig i gyflwyno'r Gymraeg yn effeithiol, maent yn gosod disgwyliadau uchel ynglŷn â chynnydd y plant trwy dargedau uchelgeisiol a realistig ar gyfer y Gymraeg trwy sicrhau bod:

- cefnogaeth gref gan uwch reolwyr a llywodraethwyr;
- blaenoriaeth uchel yn cael ei rhoi i Ddatblygu'r Gymraeg;
- pwyslais cryf ar Ddatblygu'r Gymraeg mewn cynllunio ysgol gyfan, gyda rhaglen waith eglur sy'n cynnwys targedau penodol;
- digon o adnoddau (amser a staff) yn cael eu neilltuo i gyflwyno maes Datblygu'r Gymraeg yn llwyddiannus;
- hyfforddiant perthnasol ar gael i bob ymarferydd sy'n addysgu Cymraeg, yn seiliedig ar archwilio eglur, er mwyn gwella ansawdd a chysondeb yr addysgu;
- hunanarfarnu cywir a chynlluniau gweithredu eglur ar waith ar gyfer gwella;
- gweithdrefnau asesu sefydledig yn cael eu defnyddio o ran y Gymraeg;
- fframweithiau a chanllawiau cenedlaethol yn cael eu defnyddio'n effeithiol;
- adnoddau o ansawdd uchel ar gael, gan gynnwys technoleg gwybodaeth a chyfathrebu; a
- phroses monitro wedi'i sefydlu ar gyfer ansawdd a chysondeb addysgu maes Datblygu'r Gymraeg a'i ddeilliannau (fel rhan o drefniadau monitro arferol yr ysgol).

Pan geir diffygion o ran arweinyddiaeth a rheolaeth, mae'r arolygwyr yn canfod:

- nad yw arweinwyr a rheolwyr yn teimlo'n ddigon hyderus i farnu darpariaeth Gymraeg;
- bod cynllunio cyfyngedig ar gyfer Datblygu'r Gymraeg;
- bod monitro ac arfarnu cyfyngedig o ran ddarpariaeth Gymraeg;
- bod defnydd cyfyngedig o asesu;
- bod yr ysgol yn dibynnu gormod ar y gwasanaeth Athrawon Bro i gyflwyno sesiynau addysgu;
- bod diffyg cyfleoedd hyfforddi yn y Gymraeg i ymarferwyr; ac
- nad oes strategaeth eglur i gynyddu gallu yn yr ysgol i addysgu Cymraeg trwy hyfforddiant neu recriwtio.

# 4 HYFFORDDIANT A CHYMORTH

## HYFFORDDIANT

Mae tair agwedd gyd-ddibynnol ar hyfforddiant yn y Gymraeg y dylai ysgolion a lleoliadau eu hystyried:

- hyder yr ymarferwyr i ddefnyddio'r Gymraeg;
- ansawdd yr hyfforddiant a'r rhaglenni ymsefydlu cychwynnol; ac
- ystod y datblygiad proffesiynol a'r hyfforddiant mewn swydd sydd ar gael i bawb sy'n gyfrifol am Ddatblygu'r Gymraeg er mwyn diweddaru eu medrau a'u gwybodaeth.

Mae angen i leoliadau ac ysgolion gael hyfforddiant rheolaidd er mwyn sefydlu gwaith o ansawdd uchel ym maes Datblygu'r Gymraeg. Mae cysylltiad eglur rhwng ansawdd hyfforddiant a'i effaith ar addysgu ym maes Datblygu'r Gymraeg. Pan fo ymarferwyr mewn ysgolion a lleoliadau'n derbyn hyfforddiant a chymorth rheolaidd, maent yn aml yn teimlo'n fwy hyderus wrth addysgu'r Gymraeg.

Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu'r Cynllun Sabothol, sy'n cynnig hyfforddiant methodoleg ac iaith Gymraeg i ymarferwyr y mae angen iddynt ddatblygu'r hyder a'r derminoleg arbenigol i addysgu Cymraeg fel ail iaith. Mae'r cwrs Lefel Sylfaen yn cynnig hyfforddiant yn y Gymraeg i athrawon yn y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 sy'n dymuno:

- datblygu eu medrau Cymraeg i lefel Sylfaen;
- cymryd y cam cyntaf ar lwybr cydnabyddedig i ddysgu Cymraeg gyda'r nod tymor hir o addysgu'r Gymraeg neu addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg; a
- chyfrannu at ddwyieithrwydd yn eu hysgolion a chreu ethos iaith Gymraeg.

Mae'r Cynllun Sabothol wedi'i fwriadu ar gyfer y rhai hynny sydd â gwybodaeth sylfaenol am y Gymraeg a'r cymhelliad i ymrwymo i 11 wythnos o hyfforddiant dwys. Bydd Llywodraeth Cymru yn ad-dalu hyd at 55 diwrnod o gostau cyflenwi ar gyfer y cwrs hwn. Mae'r cynllun ar gael i athrawon cynradd ledled Cymru ac mae 114 wedi cwblhau'r cwrs Sylfaen newydd.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi datblygu cwrs lefel mynediad, sy'n para am fis, ar gyfer cynorthwywyr ystafell ddosbarth sy'n gweithio mewn ysgolion cynradd Saesneg neu ddwyieithog. Mae'r cwrs yn rhoi'r eirfa a'r medrau ieithyddol sydd eu hangen ar gynorthwywyr ystafell ddosbarth i helpu eu cydweithwyr addysgu. Mae Llywodraeth Cymru yn ad-dalu hyd at 20 niwrnod o gostau cyflenwi ar gyfer y cwrs hwn. Mae cyfanswm o 57 cynorthwy-ydd ystafell ddosbarth wedi cwblhau'r cwrs.

Menter arall ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a ariennir gan Lywodraeth Cymru yw'r prosiect 'Geiriau Bach' a gynlluniwyd ar gyfer gweithwyr yn y blynyddoedd cynnar sydd naill ai'n gwbl ddi-Gymraeg neu nad oes ganddynt yr hyder i ddefnyddio'r iaith. Mae'n cynnig cyfle i ymarferwyr gaffael medrau sylfaenol yn y Gymraeg a dysgu sut i ddefnyddio'r iaith mewn chwarae ysgogol gyda phlant. Cynhelir y cynllun hwn ledled Cymru ac fe'i dilynwyd gan gyfanswm o 285 o ymarferwyr yn 2011-2012.

Pan ddarperir hyfforddiant ar Ddatblygu'r Gymraeg yn fewnol mewn ysgolion, mae hyn yn cynnwys:

- arddangos addysgu o ansawdd uchel mewn dosbarthiadau gydag ymarferwyr naill ai'n arsylwi neu'n addysgu fel tîm gyda'r athro ymgynghorol;
- rhannu cynlluniau ac adnoddau yn ystod sesiynau min nos neu ddiwrnodau hyfforddiant;
- darparu hyfforddiant a chyngor i ymarferwyr a chynorthwywyr cymorth dysgu sy'n gweithio gyda grwpiau o blant i ddatblygu eu medrau llafar mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd, gan gynnwys chwarae yn yr awyr agored; a
- chynorthwyo ymarferwyr newydd, fel ymarferwyr sydd newydd gymhwyso a staff profiadol o fannau eraill sy'n anghyfarwydd â dull yr ysgol neu'r lleoliad o gyflwyno maes Datblygu'r Gymraeg, trwy gymorth gyda chynllunio ac adnoddau.

Nid yw pob ymarferydd mewn ysgolion yn derbyn digon o gymorth i gyflwyno'r Gymraeg yn eu hystafelloedd dosbarth. Dywedodd llawer o ymarferwyr mai cyfleoedd cyfyngedig yn unig y maent wedi'u cael i ddatblygu eu medrau Cymraeg. Prin iawn yw'r cyfleoedd hyfforddi yn y Gymraeg sydd ar gael i ymarferwyr mewn llawer o leoliadau, yn aml oherwydd anawsterau yn ymwneud â rhyddhau staff i ddilyn hyfforddiant. Mae'r gost sy'n gysylltiedig â thalu i ymarferwyr ddilyn hyfforddiant y tu allan i'w horiau gwaith arferol yn gallu bod yn broblem hefyd mewn lleoliadau bach.

Yn ystod y blynyddoedd diweddar, mae mwy a mwy o staff cymorth, ac yn enwedig cynorthwywyr ystafell ddosbarth, wedi chwarae rhan gynyddol bwysig mewn addysgu ym maes Datblygu'r Gymraeg. Pan fo staff cymorth yn derbyn hyfforddiant yn y Gymraeg, maent yn datblygu eu medrau'n dda.

Mewn llawer o ysgolion, cynhelir archwiliadau o wybodaeth a medrau Cymraeg staff yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw bob amser yn eglur sut y defnyddir y wybodaeth hon i lywio anghenion hyfforddi yn y dyfodol.

Mae rhai awdurdodau lleol yn trefnu cyrsiau ar gyfer cydgysylltwyr y Gymraeg er mwyn gwella arweinyddiaeth yn y Maes Dysgu hwn. Yn aml, trefnir y sesiynau hyn yn fewnol gan yr awdurdod lleol. Ceir rhai enghreifftiau o hyfforddiant effeithiol trwy rwydweithio lle mae clwstwr o ysgolion yn gweithio gyda'i gilydd. Mae awdurdodau lleol eraill wedi datblygu cymunedau dysgu proffesiynol i ddatblygu agweddau penodol ar Ddatblygu'r Gymraeg. Fodd bynnag, nid yw'r agwedd hon ar hyfforddiant wedi'i datblygu'n llawn ym mhob awdurdod ac mae'r hyfforddiant ar gyfer lleoliadau yn gyfyngedig yn gyffredinol.

## CYMORTH

Mae llawer o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn derbyn cymorth arbenigol gan athrawon ymgynghorol yr awdurdod lleol a'r gwasanaeth Athrawon Bro lleol. Mae'r gwasanaeth Athrawon Bro yn dîm arbenigol o athrawon y Gymraeg, a gyflogir gan awdurdodau lleol, sy'n gweithio gydag ymarferwyr mewn ysgolion cynradd. Mae gan athrawon bro rôl bwysig i'w chwarae o ran herio a chynorthwyo ysgolion i godi safonau. Yn ystod ein hymweliadau, adroddodd sawl ysgol fod y plant yn ymateb yn naturiol ac yn frwdfrydig i'r ymweliadau gan aelodau o wasanaeth athrawon bro yr awdurdod lleol. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr o'r farn na chynhelir ymweliadau o'r fath yn ddigon aml.

Mewn rhai o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw, yr athro bro yw'r unigolyn sy'n arwain o ran monitro ac arfarnu safonau, ac mae hyn yn agwedd bwysig ar ei rôl.  Gall yr athro bro roi safbwynt allanol gwerthfawr ynglŷn â safonau a darpariaeth ym maes Datblygu'r Gymraeg.  Fe all hefyd nodi arfer dda yn yr ysgol a'i hannog i'w lledaenu.  Fodd bynnag, trwy drosglwyddo'r rôl fonitro arweiniol i'r athro bro, nid yw arweinwyr a rheolwyr yn deall y cryfderau a'r meysydd i'w gwella o ran Datblygu'r Gymraeg yn eu hysgolion.  O ganlyniad, mae rhai ysgolion yn dibynnu gormod ar addysgu ac arweiniad yr athro bro.  Gall yr ysgol roi'r gorau i ddatblygu ei harbenigedd ei hun yn y Gymraeg, a gallai ddioddef oherwydd llai o allu mewnol i wella'r ddarpariaeth a safonau.

Mewn ysgolion eraill yr ymwelwyd â nhw, mae'r athrawes fro yn ymgymryd â rôl gefnogol ac yn canolbwyntio ar ymarferwyr y mae angen cymorth ychwanegol arnynt neu ymarferwyr sydd newydd gymhwyso.  Mae'r ysgolion yma o'r farn bod hyn yn ddefnydd da o'i hamser.  Fodd bynnag, nid yw hyn yn gynaliadwy ar sail wythnosol.

Yn gyffredinol, ychydig iawn o gymorth arbenigol rheolaidd yn y Gymraeg sydd ar gael i leoliadau.  Pan fo cymorth ar gael, mae'r lleoliadau'n gwneud defnydd da ohono i wella eu darpariaeth yn y Gymraeg.  Fodd bynnag, nid oes digon o staff ar gael ym mhob awdurdod i rannu arfer orau o ran cyflwyno maes Datblygu'r Gymraeg gyda phob lleoliad.  O ganlyniad, caiff datblygiad y Maes Dysgu hwn yn y Cyfnod Sylfaen ei rwystro gan ddiffyg arbenigedd staff.

# ATODIAD 1:
## SAIL Y DYSTIOLAETH

Mae'r canfyddiadau a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn wedi'u seilio ar:

- ymweliadau gan arolygwyr â sampl gynrychioliadol o 14 o leoliadau, ysgolion meithrin ac ysgolion cynradd ledled Cymru. Yn ystod yr ymweliadau, cynhaliodd yr arolygwyr ystod o weithgareddau i gasglu tystiolaeth, gan gynnwys cyfweld uwch arweinwyr ac ymarferwyr, arsylwi sesiynau Datblygu'r Gymraeg a sesiynau eraill, a chraffu ar enghreifftiau o waith ysgrifenedig y plant a dogfennau'r ysgolion;
- trafodaethau gyda 15 o benaethiaid ac uwch arweinwyr;
- trafodaethau gydag ymgynghorwyr yr awdurdod lleol mewn dau awdurdod a chraffu ar adroddiadau arolygu'r 22 awdurdod lleol; a
- gwybodaeth gan 238 o ysgolion cynradd a meithrin a 115 o leoliadau a arolygwyd rhwng Medi 2010 a Gorffennaf 2011.

# ATODIAD 2:
## CWESTIYNAU AR GYFER HUNANARFARNU I HYBU GWELLIANT O RAN DATBLYGU'R GYMRAEG

Lluniwyd y cwestiynau sy'n dilyn i gynorthwyo arweinwyr, rheolwyr ac ymarferwyr i adolygu maes gwaith Datblygu'r Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen.

## SAFONAU

**A yw plant yn gallu:**

- gwrando, deall ac ymateb i ystod o orchmynion cyfarwydd yn gywir;
- gwrando ac ymateb i ystod o gwestiynau syml;
- gwylio a gwrando'n ofalus ar DVDau ac ymateb yn briodol;
- siarad yn eglur, gan ddefnyddio geiriau, cyfarchion ac ymadroddion syml gyda hyder a chywirdeb sy'n datblygu;
- defnyddio ymadroddion Cymraeg syml yn ddigymell mewn sefyllfaoedd chwarae rôl;
- darllen geiriau ac ymadroddion syml yn gywir;
- deall storïau Cymraeg a ddarllenir iddynt;
- ysgrifennu ymadroddion Cymraeg syml yn gywir;
- ysgrifennu mewn ystod o wahanol genres, er enghraifft, rhestrau, llythyrau a darnau dyddiadur yn Gymraeg;
- defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu i ddadansoddi a dehongli data yn Gymraeg;
- ysgrifennu eu storïau byrion eu hunain yn Gymraeg;
- ychwanegu'n llwyddiannus at y Gymraeg y maent wedi'i dysgu yn flaenorol, ehangu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth a datblygu medrau Cymraeg newydd mewn ystod o gyd-destunau;
- cymryd rhan yn greadigol yn eu dysgu eu hunain a rhoi eu syniadau eu hunain ar waith;
- profi dysgu yn Gymraeg yn uniongyrchol mewn ffyrdd dychmygus, ysgogol a heriol dan do ac yn yr awyr agored;
- caffael, datblygu, ymarfer, defnyddio a mireinio eu medrau Cymraeg mewn amrywiaeth o gyd-destunau ar draws y chwe Maes Dysgu arall; a
- datblygu'n gynyddol a dod yn annibynnol o ran eu medrau llafar, darllen ac ysgrifennu yn Gymraeg?

## ADDYSGU AC ASESU

**A yw ymarferwyr yn:**

- meddu ar ddisgwyliadau uchel ar gyfer cyflawniadau plant ym maes Datblygu'r Gymraeg;
- cydweithio'n agos i gefnogi anghenion dysgu plant, fel cynllunio gyda'i gilydd a rhannu gwybodaeth asesu'r Gymraeg;
- cynllunio a nodi potensial dysgu gweithgareddau yn y chwe Maes Dysgu arall o safbwynt Datblygu'r Gymraeg;
- cysylltu medrau llafar â gweithgareddau darllen ac ysgrifennu ym maes Datblygu'r Gymraeg fel bod plant yn dysgu bod y moddau hyn yn gyd-ddibynnol;
- addysgu medrau Datblygu'r Gymraeg yn eglur a darparu gwaith sy'n sicrhau bod plant yn cael cyfleoedd i ddefnyddio'r hyn y maent wedi'i ddysgu drostynt eu hunain;
- sgaffaldio dysgu plant ym maes Datblygu'r Gymraeg trwy ddulliau fel drilio geirfa, gwaith grŵp a gwaith mewn parau i gyfnerthu'r hyn a ddysgwyd;
- defnyddio'r Gymraeg fel iaith achlysurol yn rheolaidd drwy gydol y sesiwn Datblygu'r Gymraeg;
- defnyddio adnoddau ysgogol, gan gynnwys DVDau, llyfrau mawr, yr amgylchedd awyr agored, y llyfrgell a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu i helpu plant i ddod yn ddysgwyr brwdfrydig;
- monitro cynnydd plant o ran datblygu medrau Datblygu'r Gymraeg, yn enwedig rhuglder, cywirdeb a hyder;
- rhoi arweiniad ac adborth i blant unigol fel eu bod yn gwybod beth y maent yn ei ddysgu a pha mor dda y maent yn datblygu;
- darparu cyfleoedd i blant asesu eu gwaith eu hunain a gwaith plant eraill; a
- monitro datblygiad a chynnydd plant yn ofalus, defnyddio gwybodaeth asesu i lywio cynllunio dydd i ddydd a helpu plant i ddeall pa mor dda y maent yn datblygu a sut y gallant wella?

## CYNLLUNIO'R CWRICWLWM A'R AMGYLCHEDD DYSGU

**A yw ymarferwyr yn sicrhau:**

- eu bod yn cynllunio ar gyfer defnyddio'r amgylchedd dysgu dan do ac awyr agored yn effeithiol ym maes Datblygu'r Gymraeg;
- bod cynlluniau o'r fath yn ychwanegu'n effeithiol at ddysgu blaenorol plant ac yn sicrhau dilyniant i'w cyfnod dysgu nesaf;
- bod gwaith wedi'i gyfateb yn dda i anghenion dysgu plant ac yn herio'r rhai hynny sy'n fwy abl;
- bod cynlluniau ar gyfer Datblygu'r Gymraeg yn integreiddio dysgu ac addysgu llafaredd, darllen ac ysgrifennu, ac yn cynnwys amcanion addysgu eglur a'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r medrau penodol y dylai plant eu hennill; a
- bod tasgau a gweithgareddau llafaredd, darllen ac ysgrifennu Cymraeg yn ddiddorol, yn amrywiol ac yn berthnasol?

## ARWEINYDDIAETH A RHEOLAETH

**A yw arweinwyr a rheolwyr:**

- yn meddu ar fedrau Cymraeg digonol i fonitro cynnydd plant ym maes Datblygu'r Gymraeg;
- yn sicrhau bod pob ymarferydd yn meddu ar wybodaeth ac arbenigedd cadarn ym maes Datblygu'r Gymraeg;
- yn sicrhau bod pob ymarferydd yn derbyn hyfforddiant rheolaidd a pherthnasol ar gyfer addysgu maes Datblygu'r Gymraeg;
- yn meddu ar raglen a gynlluniwyd yn dda i adolygu ac arfarnu effaith mentrau Datblygu'r Gymraeg ac yn defnyddio'r canfyddiadau i gynllunio ar gyfer gwella ymhellach;
- yn sicrhau bod partneriaeth gref â rhieni a gofalwyr i gefnogi dysgu ym maes Datblygu'r Gymraeg;
- yn cynnal arfarniadau/archwiliadau rheolaidd o ystod gwaith y plant er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn cael profiadau llawn, cyfoethog a heriol o lefaredd, darllen ac ysgrifennu ym maes Datblygu'r Gymraeg;
- yn sicrhau bod safon y dysgu a'r addysgu ym maes llafaredd, darllen ac ysgrifennu'r Gymraeg cystal ag y gall fod; ac
- yn sicrhau bod ganddynt ymarferydd dynodedig sy'n arwain, cynghori, cefnogi a herio gwaith ym maes Datblygu'r Gymraeg?

# RHESTR TERMAU

**Meysydd dysgu**

Mae saith Maes Dysgu (neu chwe Maes Dysgu lle'r Gymraeg* yw'r brif iaith gyfathrebu) yn disgrifio cwricwlwm priodol ar gyfer plant tair i saith oed yn y Cyfnod Sylfaen. Mae'n rhaid iddynt ategu ei gilydd a chydweithio i ddarparu dull trawsgwricwlaidd er mwyn ffurfio cwricwlwm perthnasol ymarferol.
Mae'r Meysydd Dysgu yn cynnwys:

- datblygiad creadigol;
- datblygiad corfforol;
- gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd;
- Datblygu'r Gymraeg;
- datblygiad mathemategol;
- iaith, llythrennedd a chyfathrebu; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

**Asesu ar gyfer dysgu**

Dylanwad pwysig ar gyflawniad addysgol plant yw eu dealltwriaeth o ba mor dda y maent yn datblygu a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella. Pan fydd plant yn cymryd rhan weithredol mewn prosesau asesu ffurfiannol, fel gosod targedau, ymgymryd ag asesu gan gyfoedion neu hunanasesu, adnabod cynnydd yn eu gwaith ysgrifenedig, ac ati, maent yn gwella eu cymhelliad, eu hannibyniaeth, eu hyder a'u cyrhaeddiad. Mae'r cyfrwng pwerus hwn, a adwaenir fel Asesu ar gyfer Dysgu, yn galluogi plant i wella eu dysgu eu hunain ac mae'n digwydd ym mhob cam o'r broses ddysgu.

**Athrawes fro**

Aelod o'r gwasanaeth Athrawon Bro. Enw arall a ddefnyddir yw athro ymgynghorol ardal.

**Athrawon Bro**

Mae'r gwasanaeth Athrawon Bro yn dîm arbenigol o ymarferwyr y Gymraeg sy'n gweithio gydag ymarferwyr mewn ysgolion yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol. Maent yn hybu arfer orau ac addysgu a dysgu o ansawdd uchel yn y Gymraeg trwy roi cymorth ymarferol i ysgolion wrth addysgu'r Gymraeg a defnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng cyfathrebu. Maent hefyd yn darparu cyrsiau addysg a hyfforddiant mewn swydd ac yn datblygu ystod o adnoddau addysgu a dysgu Cymraeg.

**Addysgu uniongyrchol**

Mae addysgu'r Gymraeg yn uniongyrchol yn y Cyfnod Sylfaen yn golygu bod ymarferwyr:

- yn rhoi'r rhan fwyaf o gyfarwyddiadau dosbarth i blant yn Gymraeg;
- yn addysgu geirfa a brawddegau Cymraeg pob dydd;
- yn datblygu medrau cyfathrebu llafar plant trwy drefnu'n ofalus sefyllfaoedd lle y cyfnewidir cwestiynau ac atebion rhwng y staff a'r plant;
- yn pwysleisio ynganiad Cymraeg cywir;
- yn sicrhau bod plant yn siarad tua 80% o'r adeg yn ystod y sesiwn; ac
- yn annog plant i ofyn cwestiynau yn ogystal â'u hateb ar y cyfle cynharaf.

**Dysgu yn yr awyr agored**

Ceir pwyslais cryf ar ddysgu yn yr awyr agored yn y Cyfnod Sylfaen. Dylai'r amgylchedd dysgu yn yr awyr agored fod yn estyniad o'r amgylchedd dysgu dan do. Yn gyffredinol, o ystyried materion iechyd a diogelwch, dylai plant allu symud yn rhwydd rhwng yr amgylchedd dan do a'r amgylchedd awyr agored.

**Llafaredd**

Datblygiad medrau gwrando, siarad a gwylio.

**Ymarferwyr**

Mae'r term cyffredinol hwn yn cyfeirio at yr oedolion sy'n gweithio gyda phlant yn y Cyfnod Sylfaen. Mae'r term yn cynnwys ymarferwyr a chynorthwywyr ystafell ddosbarth.

# AWDUR YR ADRODDIAD CYLCH GWAITH A THÎM YR AROLWG

| | |
|---|---|
| Ann Jones | Arolygydd Arweiniol |
| Clive Phillips | Arolygydd Tîm |
| O Glyn Roberts | Arolygydd Tîm |